



Adroddiad blynyddol a datganiad cyfrifon

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Adroddiad blynyddol a datganiad cyfrifon 2024/25

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 11(5) o Ddeddf
Diwygio'r Heddlu 2002

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Pharagraff 17 o Atodlen 2 o Ddeddf
Diwygio'r Heddlu 2002

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 15 Gorffennaf 2025.



© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU

Ffôn: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6221-5

E03524370 07/26

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o bapur wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cynnwys

Adran 1: Adroddiad perfformiad	7
Trosolwg.....	7
Crynodeb o'n perfformiad	15
Proffil risg	25
Dadansoddiad perfformiad	39
 Adran 2: Adroddiad atebolrwydd.....	 82
Adroddiad llywodraethiant corfforaethol	82
Adroddiad tâl a staff	105
Adroddiad atebolrwydd seneddol	123
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol	125
 Adran 3: Datganiadau ariannol	 132

Adran 1:

Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Pwrpas y trosolwg perfformiad yw crynhoi'r canlyniadau yr ydym yn anelu at eu cyflawni, ein hamcanion, a'n perfformiad wrth gyflawni'r amcanion hynny.

Amdanom ni – pwy ydym ni a beth rydym yn gwneud

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Rydym yn goruchwyllo'r system cwynion am yr heddlu ac yn ymchwilio i ymddygiad swyddogion neu aelodau staff yr heddlu, a'r digwyddiadau a'r cwynion mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona. Mae ein holl waith yn annibynnol o'r heddlu, y llywodraeth a grwpiau buddiant.

Heddluoedd sy'n delio â'r rhan fwyaf o gwynion yn erbyn swyddogion heddlu a staff yr heddlu. Mae'n rhaid i heddluoedd atgyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom ni – p'un ag yw rhywun wedi gwneud cwyn ai peidio.

Mae heddluoedd arbenigol, fel Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Cwnstabiliaeth Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, hefyd yn dod o dan ein hawdurdodaeth. Yn yr un modd, rydym yn goruchwyllo'r system cwynion ar gyfer rhai sefydliadau ychwanegol, megis Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF), yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA). Rydym yn ymchwilio i rai cwynion difrifol a materion ymddygiad sy'n ymwneud â staff o'r sefydliadau hyn.

Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throseddu (PCCs) a'u dirprwyon a'u contractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

Ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Ein cenhadaeth yw gwella plismona drwy oruchwyliaeth annibynnol o gwynion am yr heddlu, trwy ddal yr heddlu i gyfrif a thrwy sicrhau bod dysgu canlynol yn dod a newid.

Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu ymddiried yn a chael hyder yn yr heddlu.

Dyma ein gwerthoedd, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'n staff a rhanddeiliaid allanol:


- chwilio am y gwirionedd
- bod yn gynhwysol
- grymuso pobl
- bod yn ddygn
- gwneud gwahaniaeth

Ein harweinyddiaeth a'n strwythur

Rydym yn cael ein harwain gan Gyfarwyddwr Cyffredinol, Rachel Watson. Rachel sy'n arwain y tîm gweithredol ac mae hi'n cadeirio'r Bwrdd IOPC, sy'n cynnwys pum cyfarwyddwr anweithredol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn cael ei chefnogi gan dîm gweithredol dros bum cyfarwyddiaeth:

- Ymchwiliadau, Goruchwyliaeth a Gwaith Achos
- Strategaeth, Ymgysylltu a Chyfathrebu
- Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol
- Pobl a Newid
- Trawsnewid



*Aelodau o'r Bwrdd Rheoli yn 2024/25.

Yn ôl y gyfraith, ni all ein Cyfarwyddwr Cyffredinol erioed fod wedi gweithio i'r heddlu. Mae'r diagram uchod yn cynrychioli'r uwch strwythur ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024/25. Ers diwedd y flwyddyn ariannol, mae ein Cyfarwyddwr, Pobl a Newid wedi gadael y sefydliad, ac mae'r swyddi Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Chyfarwyddwr, Ymchwiliadau wedi'u llenwi. Am fwy o wybodaeth am ein uwch arweinwyr a'n strwythur [ewch i'n gwefan](#).

Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol a chyfrifon yr IOPC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 – fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ers ymuno ym mis Ebrill 2024. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur, nid yn unig i'r IOPC, ond ar draws y system cwynion gyfan, sy'n wynebu galw cynyddol. Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn o newid, wrth i IOPC ddechrau ei raglen trawsnewid radical.

Pan ymunais â'r IOPC, roedd y sefydliad yn wynebu cyfnod heriol. Roedd galw cynyddol, toriadau cyllid sylweddol ac ehangiad o'n cylch gwaith wedi effeithio ar ein perfformiad. Roedd angen i ni gyflymu ein gwaith a gwella ei ansawdd.

Rhaglen drawsnewid IOPC yw ein hymateb uchelgeisiol i'r sefyllfa hon. Mae'n gwneud gwelliannau i'n strwythur, ein prosesau a'n diwylliant fel y gallwn gynnal mwy o ymchwiliadau ac adolygiadau, i safon uwch – ac yn gyflymach.

Rydym yn deall effaith ymchwiliadau ac adolygiadau hir ar yr achwynwyr a'r swyddogion heddlu dan sylw.

Mae'r rhaglen tair blynedd wedi'i chynllunio i ddarparu gwasanaeth gwell i achwynwyr a swyddogion. Wrth i'r rhaglen ddechrau ei hail flwyddyn, perfformiad yw ein blaenoriaeth o hyd.

Rydym wedi ailstrwythuro ein sefydliad a'n tîm arweinyddiaeth uwch. Mae model cenedlaethol newydd nawr ar waith, sy'n ein galluogi i ddefnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithlon lle bynnag sydd eu hangen. Bydd ein model cyflawni newydd yn cynyddu cynhyrchiant, gan gyflymu ymchwiliadau ac adolygiadau, gwella'r broses o wneud penderfyniadau o'r dechrau i'r diwedd, a helpu ein staff i weithio mor effeithlon â phosib tra'n cynnal safonau uchel.

Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn y gall IOPC yn unig ei wneud - a sut i'w wneud yn wych.

Mae ein gwaith yn parhau i fod yn heriol. Yn 2024/25 cwblhawyd 71.7% o'n hymchwiliadau craidd mewn 12 mis – llai na'r llynedd, ac islaw ein targed o 85%. Cynyddodd yr amser a gymerwyd i gwblhau adolygiadau 11% o'i gymharu â llynedd. Derbyniwyd dros 6,900 o atgyfeiriadau gan heddluoedd, a 2,451 o geisiadau am adolygiadau.

Ond mae ein gwaith trawsnewid eisoes yn dangos canlyniadau: ers mis Mawrth 2025 rydym eisoes yn cwblhau mwy o adolygiadau nag ydym yn derbyn, ac mae'r amser cyfartalog a gymerir wedi gostwng 30%. Rydym ar y trywydd iawn i gwblhau dros 45% yn fwy o adolygiadau nag yn 2024/25, ac mae perfformiad ein Huned Asesu wedi cynyddu dros 50%. Rydym yn gweld gwelliant yn ein cyflymder o ran cwblhau ymchwiliadau annibynnol craidd hefyd. Rydym hefyd wedi gwella'r ffordd rydym yn mesur ein perfformiad gydag ymchwiliadau: rydym bellach yn ystyried bod achos wedi'i gwblhau pan fydd yr adroddiad terfynol yn cyrraedd yr Awdurdod Priodol, er mwyn rhoi darlun mwy cywir ac i adlewyrchu profiad ein defnyddwyr gwasanaeth yn well.

Daw'r gwaith hwn ar adeg pan mae'n rhaid i ni wneud mwy, gyda llai. Yn ei hadolygiad annibynnol o IOPC, nododd Dr Gillian Fairfield sut yr oeddem wedi profi toriad cyllideb mewn termau real - rydym yn ei gyfrifo fel 25% rhwng 2018 a 2025. Gan ychwanegu at yr arbedion o £1.3m rydym eisoes wedi'u cyflawni, rydym yn gweithio ar dros £13m o arbedion effeithlonrwydd fel rhan o'n trawsnewidiad dros dair blynedd.

Wrth gwrs, nid ydym yn gweithredu mewn gwacter – rydym yn rhan o system ehangach sy'n aml yn symud yn rhy araf. Canfu Adolygiad Atebolrwydd y Llywodraeth fod achosion camymddwyn yn cael eu gohirio'n rheolaidd, weithiau am flynyddoedd, gan erydu ymddiriedaeth ymhlith achwynwyr a swyddogion. Rydym yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â rhwystrau systemig i amseroldeb yn y system gamymddwyn ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu â'r tîm adolygu amseroldeb unwaith y bydd wedi'i sefydlu.

Hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr yn IOPC am eu hymdrech a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn bwysicach fyth, rwy'n diolch iddynt o flaen llaw am y gwaith sydd o'n blaenau o hyd, gan barhau i wireddu ein cynlluniau trawsnewid uchelgeisiol. Gyda'n gilydd, gallwn greu IOPC sy'n darparu'r system cwynion mae'r cyhoedd a'r heddlu yn haeddu, lle mae cydweithwyr yn hapus ac yn falch o weithio.



Rachel Watson
Cyfarwyddwr Cyffredinol

Trawsnewid IOPC

Mae IOPC yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn system atebolrwydd yr heddlu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth annibynnol, teg ac effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion ein defnyddwyr.

Ond, er gwaethaf gwaith caled cydweithwyr IOPC, nid yw'r system wedi bod yn gweithio'n ddigon da. Mae ein ymchwiliadau a'n adolygiadau wedi bod yn cymryd gormod o amser ac nid ydym wedi darparu'r ansawdd gwasanaeth rydym yn credu bod ein defnyddwyr yn haeddu yn gyson. Mae ymddiriedaeth a hyder yn atebolrwydd yr heddlu yn isel ymhlith rhai rhannau o'r gymuned a rhai swyddogion.

Mae rhaglen trawsnewid IOPC yn fenter uchelgeisiol dros dair blynedd, sy'n ailfeddwl yn radical sut ydym yn gweithio ac yn meddwl, i'n galluogi i gynnal mwy o ymchwiliadau ac adolygiadau amserol o ansawdd uchel, a gyrru gwelliannau sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y system cwynion am yr heddlu.

Rydym wedi ymgorffori argymhellion [adolygiad Dr Gillian Fairfield o'r IOPC](#), a gyhoeddwyd ychydig cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2024/25, yn ogystal â mentrau a gwelliannau eraill. Mae'r rhaglen hefyd yn ystyried diwygiadau newydd y Llywodraeth i hybu hyder yn system atebolrwydd yr heddlu.

Dyma ein rhaglen drawsnewid:

- Dylunio ein gwasanaethau o amgylch ein defnyddwyr a bod yn gymesur – gwneud yr hyn sydd angen ei wneud i gael y canlyniad cywir.
- Clirio a symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau a chymeradwyo – sicrhau bod ein pobl wedi'u grymuso a'u galluogi, ar bob lefel, i ddarparu gwasanaeth gwych.
- Safoni a gwella ein prosesau – integreiddio cymesuredd a rheolaeth ansawdd, cynyddu cysondeb a gwella ein gallu i wella'n barhaus.

Yn ystod cam cyntaf y trawsnewid, gwnaethom gyflawni nifer o brosiectau a newidiadau a oedd yn mynd i'r afael â'r materion blaenoriaeth uchaf, gan gynnwys:

- Newid o fodel rhanbarthol i fodel cenedlaethol ar gyfer ein hymchwiliadau.
- Adolygu a diwygio ein strwythur uwch i'w symleiddio ac i reoli ein hadnoddau yn fwy effeithiol.
- Creu ein Cynllun Troi Gweithrediadau Cenedlaethol i gwrdd â'r galw cynyddol am adolygiadau a lleihau yr ôl-groniad.
- Gwella ein Llawlyfr Gweithrediadau, ein dogfen cyfeirio allweddol ar gyfer ein holl dimau ymchwilio ac adolygu.

Mae'r newidiadau hyn wedi gosod y sylfeini i drawsnewid IOPC. Roedd cam dau, a lansiwyd yn haf 2025, yn cynnwys prosiectau a oedd yn canolbwyntio ar systemau, prosesau a phobl - gan gynnwys trawsnewid ein cynllunio strategol, ymchwiliadau, gwaith achos, goruchwyliaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau i staff IOPC, gan ailgychwyn ein rhaglen perfformiad staff 'Drive', a chydabod enghreifftiau gwych o sut mae ein pobl yn ymgorffori ac yn byw gwerthoedd IOPC.

Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona

Mae ein strategaeth 2022-2027 yn nodi ein pedair amcan strategol:

- Ymwybyddiaeth a hyder: mae pobl yn gwybod am y system cwynion ac yn hyderus i'w defnyddio.
- Atebolrwydd: mae'r system cwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n dal yr heddlu i gyfrif.
- Arwain gwelliant: mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.
- Perfformiad: rydym yn sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel.

Yn yr adroddiad blynyddol hwn rydym yn disgrifio ein perfformiad yn erbyn y pedwar amcan hyn, ynghyd â gwybodaeth ategol.

Rydym wrthi'n adolygu ein strategaeth ar hyn o bryd, er mwyn alinio a llywio camau ein cynllun trawsnewid yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi eglurder ychwanegol ynghylch sut gallwn fod yn IOPC sy'n perfformio uchel a darparu gwasanaeth gwych i'r cyhoedd, gyda systemau a phrosesau sy'n gweithio i ni a defnyddwyr ein gwasanaeth, pobl sy'n ymgysylltu ac wedi'u grymuso, ac yn olaf sut mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth ac yn cael effaith gadarnhaol ar y system cwynion am yr heddlu er mwyn gwella hyder mewn plismona.

Risgiau allweddol

Rydym yn ceisio nodi risgiau strategol sylweddol a fyddai'n gallu ein hatal rhag cyflawni ein pedwar amcan, ac yn asesu a rheoli'r rhain trwy weithgareddau lliniaru a lleihau risgiau. Rydym yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd ar y risgiau strategol i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'n Bwrdd Unedol.

Rydym yn rheoli risgiau lefel is o fewn ein cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau yn ôl yr angen. Rydym wedi gweithredu proses uwchgyfeirio ac isgyfeirio i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ar y lefel gywir.

Mae adran proffil risg yr adroddiad ([gweler tudalen 22](#))) yn egluro'r prif risgiau a wynebwyd gennym yn 2024/25 a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith.

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2024/25

Amcan: Mae pobl yn gwybod am y system cwynion ac yn hyderus i'w defnyddio.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirione ddol	2023/24 gwirione ddol
Cynyddu ymwybyddiaeth o IOPC i 68% (fel y mesurir gan ein Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd).	68%	68%	68%
Anelu at gyflawni o leiaf 40% o ymatebwyr sy'n hyderus bod IOPC yn gwneud gwaith da.	40%	40%	39%
Sicrhau bod yr amser cyfartalog i ddatrys cwynion yn erbyn IOPC o fewn 20 diwrnod gwaith.	20DG	13DG	10DG

[Sylwadau ar y perfformiad uchod a phwyntiau ychwanegol gwnaethom fonitro \(tudalen 34\).](#)

Amcan: mae'r system cwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n dal yr heddlu i gyfrif.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirione ddol	2023/24 gwirione ddol
Cwblhau 85% o'r ymchwiliadau craidd ¹ o fewn 12 mis.	85%	71.7%	83%
Cwblhau 33% o ymchwiliadau craidd o fewn chwe mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr) .	33%	31.3%	34%

¹ Ymchwiliadau 'craidd' yw gwaith IOPC sydd ddim yn dod o dan unrhyw un o'n meysydd thematig (megis trais yn erbyn menywod a merched) neu sydd ddim wedi'i ddynodi'n 'ymchwiliad mawr' (ymchwiliadau ar raddfa fawr, sy'n defnyddio llawer o adnoddau, sydd fel arfer yn gymhleth ac yn uchel eu proffil).

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirioneddol		2023/24 gwirioneddol
Sicrhau bod yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau adolygiad yn 100, 90, 80, 70 diwrnod gwaith yn chwarteri 1-4 yn y drefn honno, ar ôl derbyn y papurau cefndirol.	Ch1 100DG	128DG	132DG cyffredinol	119DG cyffredinol
	Ch2 90DG	122DG		
	Ch3 80DG	120DG		
	Ch4 70DG	155DG		

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirioneddol		2023/24 gwirioneddol
Adolygu achosion marwolaeth ac anafiadau difrifol a ymchwiliwyd yn lleol o fewn cyfartaledd o 45, 40, 35, 30 diwrnod gwaith (Ch1-4 yn y drefn honno) ar ôl derbyn y papurau cefndirol.	Ch1 45DG	39DG	43DG cyffredinol	42DG cyffredinol
	Ch2 40DG	42DG		
	Ch3 35DG	49DG		
	Ch4 30DG	43DG		

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirioneddol	2023/24 gwirioneddol
Penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer pob achos a atgyfeirir atom o fewn cyfartaledd o bum diwrnod gwaith.	100%	43%	61%
Anelu at sicrhau bod o leiaf 90% o'n hymchwilyr, sydd wedi bod yn y swydd	90%	87%	93.3%

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirione ddol	2023/24 gwirione ddol
am o leiaf 24 mis, yn cyflawni achrediad Pearson ² .			
Ymdrechu i sicrhau bod 95% o staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol erbyn y dyddiad cau.	95%	94%	ddim yn berthnasol

[Sylwadau ar y perfformiad uchod a phwyntiau ychwanegol gwnaethom fonitro \(tudalen 41\).](#)

Amcan: mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirioneddol	2023/24 gwirioneddol
Cyflawni 80% o'n argymhellion dysgu Paragraff 28A ³ sy'n cael eu derbyn gan dderbynwyr.	80%	94%	94%
Cynyddu canran y rhanddeiliaid plismona sy'n credu ein bod ni'n effeithiol yn rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu i 67%.	67%	58%	60%
Cynyddu canran y rhanddeiliaid atebolrwydd plismona sy'n credu ein bod yn effeithiol wrth rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu i 67%	67%	62%	60%
Anelu at gyflawni 46% o randdeiliaid tu hwnt i blismona sy'n credu ein bod yn effeithiol wrth rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu.	46%	44%	44%
Cynnal dros 90% o ymatebwyr arolwg sy'n dweud bod Dysgu'r	90%	91%	ddim yn berthnasol

² Rhaglen datblygu ymchwilwyr, a ddatblygwyd ar gyfer IOPC ac a ddyfarnwyd gan Pearson Education, corff dyfarnu allanol.

³ Yn dilyn ymchwiliad neu adolygiad, gall IOPC wneud argymhellion o dan baragraff 28A o Atodlen 3 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, i brif swyddogion, cyrff plismona lleol, contractwyr neu unrhyw sefydliad arall.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirioneddol	2023/24 gwirioneddol
Gwersi yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ategu gwybodaeth a dderbynnir o hyfforddiant, briffiau neu brofiad ymarferol.			

[Sylwadau ar y perfformiad uchod a phwyntiau ychwanegol gwnaethom fonitro \(tudalen 56\).](#)

Amcan: bod yn sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2024/25 targed	2024/25 gwirione ddol	2023/24 gwirione ddol
Ymdrechu i gyflawni sgôr ymgysylltu arolwg staff o 67% o leiaf.	67% o leiaf	54% gweler t59	61%
Ymdrechu i gyflawni sgôr arolwg staff o o leiaf 93% o'n pobl sy'n credu bod ganddyn nhw'r sgiliau sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol.	93% o leiaf	ddim yn berthnasol	ddim yn berthnasol
Anelu at gyflawni cynrychiolaeth o 20% o staff o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, fel bod ein gweithlu yn fwy cynrychioliadol o boblogaeth y DU.	20%	18.9%	16.6%
Anelu at gyflawni cyfradd absenoldeb salwch gyfartalog o 8 diwrnod neu lai, fesul gweithiwr.	8 diwrnod ar y mwyaf	6.12	7.64
Ymdrechu i gyflawni cyfradd trosiant staff gwirfoddol o 15% neu lai.	Uchafswm o 15%	10.71%	7.93%
Ymdrechu i gyflawni sgôr holiadur staff o leiaf 70% o'n pobl sy'n credu bod ein harweinyddiaeth (aelodau o'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth Gorfforaethol) yn gyson â'n gwerthoedd	70% o leiaf	DDIM YN BERTHNASOL	DDIM YN BERTHNASOL
Cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25	Amrywiad 0%	4.6% o dan y gyllideb	Amrywiad 0%

[Sylwadau ar y perfformiad uchod \(tudalen 60\).](#)

Adolygiad ariannol 2024/25

Mae'r adran hon yn darparu sylwadau i gefnogi'r datganiadau ariannol a'r perfformiad yn ystod y flwyddyn. Gweler y nodiadau i'r cyfrifon ar dudalen 128 am fwy o fanylion.

Fel corff ar 'hyd braich' o'r Swyddfa Gartref, mae IOPC yn derbyn cyllideb flynyddol dirprwyedig a grant cyllid cymorth gan yr adran a gymeradwyir gan y Senedd. Rydym yn gweithredu o fewn y fframwaith rheoli a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Trysorlys EF.

Cyllideb 2024/25

Yn 2024/25 gosodwyd cyllideb IOPC gan y Swyddfa Gartref ar:

- £78.40 miliwn ar gyfer gwariant refeniw, megis costau staff a chostau rhedeg ystadau a TGCh, yn ogystal â
- £1.65 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf, megis datblygu meddalwedd ac offer TGCh.

Roedd y gyllideb refeniw yn cynnwys cyllid un-tro ychwanegol o £5 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024 i gyflawni'r cynllun effeithlonrwydd a gwelliannau i'r system cwynion. Roedd y cyllid hwn dim ond ar gael i'w dynnu lawr a'i wario'n llawn yn ystod 2024/25 heb yr opsiwn i'w rollo ymlaen a'i ddefnyddio mewn blynyddoedd i ddod.

Mae diffyg sicrwydd a sefydlogrwydd ynghylch ein cyllid ar gyfer y flwyddyn i ddod yn creu cymhlethdod cyllidol a heriau i gynllunio strategol effeithiol. Mae gostyngiadau cyllidebol hirdymor yn arwain at golli sgiliau na ellir eu ail-gyflenwi, ac mae cynnydd sydyn a thymor byr yn gofyn am recriwtio cyflym sy'n anghynnaladwy. Mae natur sylfaen costau IOPC yn golygu ei bod hi'n anodd ymateb mewn ffordd ystwyth i amrywiadau sylweddol yn y gyllideb neu ansicrwydd cyllid hirdymor.

Mae Adolygiad Gwariant 2025, a grybwyllir yn fanylach isod, yn gyfle i sicrhau mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd ynghylch cyllid IOPC ar gyfer y flwyddyn nesaf hyd at 2028/29.

Aldro yn erbyn y gyllideb

	Cyllideb £m	Aldro £m	Amrywiant £m	Amrywiant %
Refeniw – arian parod	73.27	70.86	2.41	3.3%
Refeniw – heb fod yn arian parod	5.13	3.96	1.17	22.8%
Cyfanswm y refeniw	78.40	74.82	3.58	4.6%
Cyfalaf	1.65	1.53	0.12	7.3%

Y ffigurau alldro a gyflwynir yn y tabl uchod yw'r rhai a adroddwyd i'r Swyddfa Gartref yn ein cyfrifon rheoli diwedd blwyddyn ym mis Mawrth 2025.


Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y datganiadau ariannol yn cyflwyno gwariant net ar gyfer y flwyddyn o £73.35m. Mae'r gwahaniaeth sydd rhwng y ffigurau yn y tabl uchod a'r datganiadau ariannol o ganlyniad i amseriad yr addasiadau cyfrifyddu a wnaed ar ôl adrodd ar y cyfrifon rheoli. Yr addasiad mwyaf sylweddol oedd ar gyfer trin rhent yn unol â'r safonau adrodd ariannol ar gyfer lesoedd.

Gwnaethom danwario yn erbyn y gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf gan £3.58 miliwn a £0.12 miliwn, yn y drefn honno. Mae'r prif ffactorau sy'n achosi'r tanwariant yn cynnwys:

- Heriau o ran gwario £5 miliwn ychwanegol yn llawn yn 2024/25, a ddyrannwyd ym mis Mai 2024 yn unig, heb y gallu i drosglwyddo'r cyllid i flynyddoedd dilynol.
- Credyd mawr o £1.25m a dderbyniwyd yn rhan olaf y flwyddyn ar gyfer ail-daliadau ystadau yn dilyn cysoniad gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.
- Llai o achosion cyfreithiol a setliadau nag a ragwelwyd.
- Gwnaeth newidiadau i oesoedd economaidd defnyddiol asedau leihau yr alldro nad yw'n arian parod.

Tueddiadau gwariant

Gwariant refeniw



A more detailed breakdown of costs is provided in the Statement of Comprehensive Net Expenditure and note 4 to the accounts. The figures in the graph above show total operating expenditure by financial year. Mae dadansoddiad manylach o'r costau ar gael yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ac yn nodyn 4 i'r cyfrifon. Mae'r ffigurau yn y graff uchod yn dangos cyfanswm y gwariant gweithredol fesul blwyddyn ariannol.

Mae IOPC yn gwario'r rhan fwyaf o'i gyllid ar gostau staff, yn bennaf mewn Gweithrediadau. Caiff ein niferoedd staff eu hadrodd ar dudalen 101.

Mae ein meysydd eraill o wariant sylweddol yn cynnwys costau rhedeg ystadau a thechnoleg i gefnogi cyflawniad ein hamcanion sefydliadol.

Roedd ein costau llety yn 2024/25 yn llawer is nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd credyd mawr un-tro o £1.25m a dderbyniwyd ar gyfer ail-daliadau ystadau yn dilyn cysoniad gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Gwariant cyfalaf

£m	2024/25	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21
Ystadau	0.05	0.14	0.15	0.56	0.46
Cerbydau fflyd	0	0	0	0	0.61
TGCH	1.48	2.40	1.78	2.70	1.94
Cyfanswm	1.53	2.54	1.93	3.26	3.01

Mae'r rhan fwyaf o'n cyllideb cyfalaf yn cael ei wario ar dechnoleg i gefnogi trawsnewid sefydliadol a gyrru effeithlonrwydd yn ein gwaith. Y prif brosiectau yn 2024/25 oedd:

- Cynllun i ailosod yn barhaus hen offer sydd allan o ddyddiad
- Adeiladu parhaus o'n system rheoli gwaith achos sy'n cefnogi effeithlonrwydd yn ein prosesau.
- Gwelliant parhaus i'n system warws data i wella mewnwelediad a dadansoddi.

Cefnogodd gwariant ar ystadau yn ystod y flwyddyn drefniadau gweithio hybrid yn ein swyddfeydd.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Gostyngodd swm yr arian parod a gedwir gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 31 Mawrth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, roedd y balans o £4.41 miliwn (2023/24: £8.29m) islaw ein hamrediad targed ar gyfer arian parod o £6 miliwn i £8 miliwn. Roedd hyn oherwydd bod y lleihad mewn cymorth grant ym mis Mawrth, lle gofynnodd y Swyddfa Gartref am hyn 2 fis ynghynt, wedi rhagdybio na fyddai biliau sy'n weddill ar gyfer ystadau a chostau TGCh yn cael eu hanfonebu a'u talu ym mis Mawrth. Dychwelodd y balans arian parod i'r ystod darged ym mis Ebrill 2025.

Yn gyffredinol, bu gostyngiad o £3.39 miliwn mewn asedau net (cyfanswm asedau llai na chyfanswm y rhwymedigaethau). Mae'r symudiad hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan y gostyngiad yn y balans arian parod a ddisgrifiwyd uchod.

Rhagolygon

Yn fuan ar ôl yr etholiad cyffredinol yn 2024, lansiodd y llywodraeth Adolygiad Gwariant i setlo cyllidebau o 2024/25 i 2028/29. Digwyddodd Cam 1 o'r Adolygiad Gwariant yn haf 2024 a'i nod oedd pennu cyllidebau terfynol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26.


Ar adeg ysgrifennu hyn, mae IOPC wedi derbyn cadarnhad o'i ddyraniadau ar gyfer 2026/27 gan y Swyddfa Gartref.

Proffil risg

Mae'r gofrestr risg strategol yn ddogfen ddeinamig sy'n adlewyrchu'r dirwedd risg newidiol y mae IOPC yn gweithredu ynddi. Mae'n dogfennu'r lefel uchaf o risgiau ar draws y sefydliad, gan ddechrau'r flwyddyn gyda 17 risg.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen ychwanegwyd tair risg arall, fodd bynnag, cafodd 11 eu dileu cyn diwedd y flwyddyn. O ganlyniad, gorffennodd IOPC y flwyddyn gyda naw risg strategol, a nodwyd chwech ohonynt cyn dechrau'r flwyddyn. Mae Siart 1 isod yn dangos y sefyllfa risg ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn cymhwyso'r lliniaru, gan gynnwys unrhyw symudiad yn y sgôr risg yn ystod y flwyddyn os yn berthnasol.

Mae'r llythrennau'n ymwneud â'r risgiau a restrir yn y tablau sy'n dechrau ar dudalen 25. Mae llythrennau 'ghosted' yn cynrychioli'r sefyllfaoedd lle roedd y risgiau naill ai ar ddechrau'r flwyddyn ariannol neu pan gawsant eu nodi gyntaf yn ystod y flwyddyn.



Allwedd i'r risgiau	
Uchel lawn	Effaith gatastroffig ar yr amcan sy'n ei wneud yn anghyraeddadwy.
Uchel	Effaith sylweddol ar yr amcan; sy'n ei gwneud hi'n hynod anodd a/neu'n ddud i'w gyflawni.
Cymedrol	Effaith sylweddol ar yr amcan; sy'n ei gwneud yn gyraeddadwy ond gydag anhawster cymedrol a/neu gost ychwanegol.
Isel	Effaith fach ond amlwg ar yr amcan; sy'n ei wneud yn gyraeddadwy gydag ychydig o ymdrech/cost ychwanegol.

Mae'r tri tabl isod yn manylu ar yr holl risgiau a ymddangosodd ar y gofrestr risg strategol yn ystod 2024/25, amcan IOPC ('Amcan') maent yn effeithio arno, eu prif liniariadau, yr awydd cysylltiedig am risg, a chyfeiriad y teithio.

Dull IOPC o liniaru risg yn ystod y flwyddyn oedd rhoi camau ar waith i leihau'r sgoriau tebygolrwydd ac effaith er mwyn eu gostwng i'r lefel archwaeth y cytunwyd arno (neu wyriad derbyniol) ac ar yr adeg honno goddefwyd y risg. Os ystyriwyd bod y camau gweithredu hynny'n annigonol a bod y sgôr risg yn dal i fod y tu hwnt i'r archwaeth, nodwyd camau gweithredu ychwanegol a'u cyflwyno yn ôl yr angen.

Mae'r tablau canlynol yn dangos:

A) Risgiau ar y gofrestr ar ddechrau 24/25 ac yn dal i fod ar y gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn.

B) Risgiau a ychwanegwyd at y gofrestr yn ystod y flwyddyn ac sy'n dal i fodoli ar ddiwedd y flwyddyn.

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn (Noder: nid oes 'cyfeiriad teithio' wedi'i nodi yma).

Allwedd ar gyfer diffiniadau archwaeth risg:

Archwaeth	Diffiniad	Trywydd ar ddiwedd y flwyddyn (o'r dyddiad a nodwyd)
Chwilio	Bydd yn cymryd risgiau cyfiawn	Cynnydd risg 
Agored	Bydd yn cymryd risgiau sydd wedi'u cyfiawnhau'n gryf	Gostyngiad risg 
Cymedrol	Dewis ar gyfer danfoniad diogel	Dim symudiad 
Gofalus	Eithriadol o geidwadol	
Gwrthwyn ebol	Mae osgoi risg yn amcan craidd	

Amcan rhif	Disgrifiad o'r amcan
1	Ymwybyddiaeth a hyder - mae pobl yn gwybod am y system cwynion ac yn hyderus i'w defnyddio
2	Atebolrwydd - mae'r system cwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n dal yr heddlu i gyfrif
3	Arwain gwelliant - mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona
4	Perfformiad uchel - sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel

A) Risgiau ar y gofrestr ar ddechrau 2024/25 ac yn dal i fod ar y gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn.				
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth	Tuedd Risg
A Mae defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn dod yn fwyfwy rhwystredig oherwydd oediadau/ôl-groniad gwaith achos.	2	Monitro perfformiad amseroldeb a modelu rhagfynegi. Rhoi rhagfynegiadau realistig i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau eu hadolygiadau a'u diweddarau drwy gydol y broses. Mae prosiect ar gyfer Cynllun Cenedlaethol Troi Gweithrediadau [NOTP] wedi'i gychwyn, bydd hyn yn parhau i gyfrannu at leihau'r risg a'r ôl-groniadau erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt.	Gofalus	↔
B Mae'r newid diwylliannol (mewnol) sydd ei angen ar gyfer y cyfeiriad strategol presennol yn rhy fawr.	4	Nodwyd y newid diwylliannol sydd ei angen i gyflawni'r strategaeth gorfforaethol a deall y rhyng-ddibyniaethau. Cyflwynwyd goblygiadau'r strategaeth newydd i'r holl staff gan ddechrau gyda sesiynau Nawr a Nesaf. Defnyddiwyd ymyriadau Rhwydwaith Arweinyddiaeth	Gofalus	↑

A) Risgiau ar y gofrestr ar ddechrau 2024/25 ac yn dal i fod ar y gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn.				
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth	Tuedd Risg
		Gorfforaethol a Siarter Datblygu Arweinyddiaeth i ymgysylltu arweinwyr yn y strategaeth gorfforaethol		
C Nid oes gennym y data sydd ei angen arnom i wneud penderfyniadau gwybodus nac i ddangos tystiolaeth o'n heffaith ar y system cwynion am yr heddlu.	4	Mae dylunio ar gyfer platfform data newydd yn cynnwys y dylai fod yn dechnegol abl i amlyncu data yn dderbyniol o gyflym.	Agored	↓
D Os bydd gwasanaethau, offer, asedau data neu gyflenwyr TGCh IOPC yn cael eu torri neu eu peryglu gan actorion bygythiadau seiber.	4	Mae'r strategaeth Seiber a'r rhaglen waith flynyddol gysylltiedig yn cyflawni amcanion allweddol i amddiffyn, canfod ac ymateb i risg Seiber. Hanfodion Seiber ynghyd ag achrediad wedi'i gyflwyno. Proses rheoli risg seiber weithredol.	Cymedrol	↔
E Mae gan ostyngiad mewn hyder mewn plismona effaith ganlyniadol ar IOPC a goblygiadau ar	4	Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid.	Gofalus	↓

A) Risgiau ar y gofrestr ar ddechrau 2024/25 ac yn dal i fod ar y gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn.				
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth	Tuedd Risg
gyfer newidiadau i'r system cwynion ehangach.		Asesiad adolygiad Swyddfa'r Cabinet wedi'i ddiweddarau. Ymateb i Adroddiad Casey.		
F Mae risg, o ganlyniad i ostyngiad sylweddol mewn cyllid, na fydd IOPC yn gallu cyflawni ei strategaeth i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.	4	Deialog drwy gydol y flwyddyn gyda'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'n strategaeth a'n perfformiad. Datblygu'r cynllun ariannol tymor canolig i gefnogi gweledigaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r rhaglen drawsnewid. Gweithredu Rhaglen Drawsnewid sengl i ddarparu gwasanaethau statudol mwy effeithlon.	Cymedrol	↔
G Mae staff yn cael eu heffeithio'n negyddol gan ffactorau mewnol ac allanol: e.e. Pwysau ar draws y system cwynion am yr heddlu / llwyth gwaith uchel / Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ansicrwydd yn y	2	Atgyfeiriadau STREAM yn dilyn amlygiad i ddigwyddiadau trawmatig yn y gwaith ac fel rhan o gefnogaeth lles cyfoedion rheng gyntaf. Cymorth iechyd galwedigaethol.	Cymedrol	↓

A) Risgiau ar y gofrestr ar ddechrau 2024/25 ac yn dal i fod ar y gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn.				
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth	Tuedd Risg
gweithle / yr argyfwng costau byw ac ati.		Mae'r ymgyrch lawn y Tro Cyntaf wedi'i lansio, a dylai hyn leihau nifer yr atgyfeiriadau adolygu sy'n cael eu derbyn.		

B) Risgiau a ychwanegwyd at y gofrestr yn ystod y flwyddyn ac sy'n dal i fodoli ar ddiwedd y flwyddyn				
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth	Tuedd Risg
H Ni chanfyddir bod allbynnau yr ymchwiliadau Hillsborough wedi cyflawni disgwyliadau'r cyhoedd ac wedi'u cyflwyno i safon uchel, nac wedi darparu gwerth am arian.	1	Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid cadarn a rhagweithiol. Cyfathrebiadau addysgiadol a chynhwysol. Briffiau i rhanddeiliaid allweddol cyn cyflawni canlyniadau.	Cymedrol	↔
I Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddiffyg hyder yng ngallu IOPC i sicrhau canlyniadau sy'n dangos atebolrwydd yr heddlu.	1	Mae olrhain canfyddiad y cyhoedd yn golygu bod IOPC yn gyfredol ac yn ymwybodol o dueddiadau yng nghanfyddiad y cyhoedd ac ymhlith rhanddeiliaid. Mae negeseuon craidd clir wedi'u datblygu yn y	Gofalus	↔

B) Risgiau a ychwanegwyd at y gofrestr yn ystod y flwyddyn ac sy'n dal i fodoli ar ddiwedd y flwyddyn

Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth	Tuedd Risg
		strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu a'r strategaeth materion cyhoeddus i gynorthwyo i ddatblygu negeseuon symlach. Wedi adnewyddu a gweithredu cynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol - gan sicrhau bod ehangder priodol o ymgysylltu yn cael ei gynnal.		

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.

Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth
Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn aneffeithiol	1	Fframwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid uwch ar waith. Cynnull cyfarfod grŵp rhanddeiliaid ynghylch materion allweddol sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd. Cyfarfodydd rheolaidd gyda Phrif Gwnstablaid, Penaethiaid Safonau Proffesiynol, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a thimau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.	Agored

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.			
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth
Gall newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfeiriad gwleidyddol ehangu cylch gwaith IOPC yn sylweddol.	2	Defnyddio perthnasoedd â rhanddeiliaid a cheisio cyfleoedd i gyd-adnoddau a/neu i dasgau gael eu cwblhau gan rhanddeiliaid blismona a chyflenwyr cymeradwy. Cyfraniad at sganio gorwelion sefydliadol a gwaith cydweithredol gyda Strategaeth ac Effaith i ragweld a modelu newidiadau. Datblygu Gwybodaeth a data Rheoli fel offeryn rhagfynegol.	Chwilio
Mae arfer gwael heddlu ac achosion o gamymddwyn proffil uchel yn parhau heb unrhyw newid / gwelliant mewn plismona i'w weld.	3	Cyhoeddwyd Adroddiad Effaith blynyddol a chylchgronau Dysgu'r Gwersi. Amlygu a rhannu arfer da gyda heddluoedd a chyrff plismona lleol trwy ein rôl Goruchwylio. Peilot i ddilyn i fyny ar argymhellion dysgu.	Gofalus
Cynyddu ymyrraeth wleidyddol a chyfeiriad y llywodraeth yn y ffordd caiff y sefydliad ei redeg.	3	Perthnasoedd gwaith / dylanwad cadarnhaol ar lefel uwch gyda: • Gweinidogion • Gweinidogion cysgodol • ASau	Gwrthwynebol

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.			
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth
		• Uned Noddi • Rhanddeiliaid plismona allweddol Dull ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i ddatblygu	
Mae IOPC yn atebol am gyflawniad canlyniadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.	3	Egluro / atgyfnerthu locws IOPC drwy ymgysylltu â: • Seneddwyr • Rhanddeiliaid tu hwnt i blismona (yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig ar ddigwyddiadau critigol) • gyda negeseuon rhagweithiol ar y cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol	Cymedrol
Mae newidiadau yn y dirwedd wleidyddol yn arwain at safbwynt gwahanol ar yr IOPC a sut y dylid cynnal goruchwyliaeth yr heddlu, yn fwy cyffredinol.	4	Cytunwyd ar strategaeth newydd IOPC gyda mewnbwn gan y Swyddfa Gartref. Mae olrhain canfyddiad y cyhoedd yn golygu bod IOPC yn gyfredol ac yn ymwybodol o dueddiadau yng nghanfyddiad y cyhoedd ac ymhlith rhanddeiliaid. Cyfarfodydd Noddwyr Uwch gyda'r Cyfarwyddwr	Gwrthwynebol

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.			
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth
		Cyffredinol yn y Swyddfa Gartref.	
Gallai diffyg eglurder ynghylch proses gaffael newydd y Swyddfa Gartref achosi oedi a allai, ynghyd â diffyg sicrwydd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol a/neu amcangyfrifon anghywir neu gostau annisgwyl yn y dyfodol, arwain at brosiect y System Rheoli Achosion (CMS) yn rhedeg y tu hwnt i'w gyllideb wreiddiol a'i ddyddiad gorffen arfaethedig, a fyddai'n ei dro yn golygu y gallai cyflwyno a gweithredu'r CMS newydd gael ei ohirio. Byddai unrhyw oedi yn golygu bod mwy o waith a threuliau'n cael eu gwthio i flwyddyn ariannol 2024/25.	4	Gweithio'n agos gyda'r HO drwy gydol y broses gaffael. Gweithio'n agos gyda'r HO drwy gydol y broses gaffael. Bydd cyflwyno darganfyddiad 8 wythnos yn sicrhau bod gan y cyflenwr a IOPC syniad llawer cliriach o gostau, cyfnodau dosbarthu ac amseriadau'r rhain.	Cymedrol
Effaith gronnu Adolygiad Swyddfa'r Cabinet ar gapasiti, goblygiadau llywodraethiant a strwythurol posibl, arweinyddiaeth dros dro, a chyllideb dynn.	4	Deialog agored gyda'r Swyddfa Gartref gyda'r nod o ddod â risg o fewn yr archwaeth / targed. Cyfathrebu parhaus â'r bwrdd a chyngor gan Gyfarwyddwyr Anweithredol	Gofalus

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.			
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth
		Adolygiad o Reolaeth Swyddfa'r Cabinet.	
O ganlyniad i ddiffyg hysbysiad amserol o god newydd y Rheoleiddiwr Gwyddoniaeth Fforensig, ni fydd IOPC mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â gweithgaredd rheoleiddiedig (gan wneud cais mewn achosion troseddol ar gyfer nifer o weithgareddau gwyddoniaeth fforensig a gynhelir yn fewnol gan staff IOPC) erbyn y dyddiad gofynnol.	2	Cyfarfodydd gyda'r rheoleiddiwr i drafod beth oedd y gofynion a thynnu sylw at y ffaith na chawsom wybod ymlaen llaw am y gofynion newydd. Lansiwyd pecyn E-ddysgu i'r holl staff ac mae'n orfodol i'r holl staff ymchwilio. Fe wnaethon ni barhau i weithio gyda'r rheoleiddiwr i ganfod a oedd ein dehongliad o'r cod (yn benodol sut mae'n berthnasol i'n gwaith) yn gywir.	Cymedrol
Ar ôl mis Ionawr 2024, bydd IOPC yn gweithredu gyda'r cworwm NED lleiaf nes bod gweithgaredd recriwtio'r Swyddfa Gartref wedi'i gwblhau. Felly mae yna risg y gallai unrhyw absenoldeb heb ei gynllunio gan y Cyfarwyddwr Anweithredol atal cyfarfodydd bwrdd a/neu bwyllgor ffurfiol IOPC rhag cael cworwm a bydd hyn yn gwaethygu os bydd	4	Cyflwyniad i'r Swyddfa Gartref i ymestyn telerau nifer cworwm o Gyfarwyddwyr Anweithredol i aros yn eu swyddi nes bod rhai yn eu lle wedi'u recriwtio ac yn y swydd.	Gwrthwynebol

C) Risgiau a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.			
Disgrifiad o'r Risg	Am can	Prif Liniariad	Archwaeth
unrhyw oedi yn y broses recriwtio.			
Mae cynigion ar hyn o bryd i ddod â phedwar sefydliad ychwanegol sydd â "phwerau tebyg i'r heddlu" o dan PACE o fewn cylch gwaith IOPC. Mae yna risg, os bydd hyn yn digwydd, na fyddwn yn gallu cyflawni ein pwrpas statudol gan y byddai'n gwanhau pwrpas craidd IOPC, ar adeg pan mae hyder mewn plismona eisoes yn isel iawn.	2	Codi pryderon ynghylch yr effaith ar ein gwaith craidd / cyflawni dyletswyddau statudol yng nghyfarfodydd Uned Noddi'r Swyddfa Gartref. Gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i atal newidiadau niweidiol. Cyfathrebu â'r Gweinidog Plismona.	Gofalus

Dadansoddiad perfformiad

Diben y dadansoddiad perfformiad yw darparu asesiad mwy manwl o sut mae IOPC wedi cyflawni yn erbyn ei amcanion yn ystod y flwyddyn ariannol 2024 i 2025. Mae'n adeiladu ar y trosolwg perfformiad drwy gyflwyno data perfformiad allweddol, tynnu sylw at y cynnydd a wnaed, a nodi meysydd i'w gwella.

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Strategol 2022-27 ac yn cyhoeddi cynllun busnes blynyddol bob blwyddyn. Mae'r adran hon yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Busnes 2024/25.

Amcan: ymwybyddiaeth a hyder

Mae pobl yn gwybod am y system cwynion ac yn hyderus i'w defnyddio.

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni

1. Mae system cwynion am yr heddlu yn cael ei ymddiried i fynd i'r afael â phryderon yn briodol.
2. Mae'r rhai sydd â llai o hyder mewn plismona yn fodlon ac yn gallu defnyddio'r system cwynion i godi eu pryderon.
3. Mae trefniadau ar waith (megis gwybodaeth, canllawiau a chefnogaeth) sy'n ei gwneud hi'n hawdd i godi cwyn.

Mesur cynnydd yn erbyn ein hamcanion

Roedden ni'n anelu at:

Gynyddu ymwybyddiaeth o'r IOPC i 68%.

Yn 2024/25, dywedodd ein [ymchwil Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd](#) wrthym fod 68% o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi clywed am IOPC, sy'n unol â'n targed. Mae ymwybyddiaeth yn sefydlog o'i gymharu â'r 67% a gofnodwyd yn 2023/24.

Mae'r cyfryngau yn gyfrwng pwysig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o IOPC a'r system cwynion. Yn 2024/25 cyhoeddwyd 185 o ddatganiadau rhagweithiol i'r cyfryngau am ein hymchwiliadau, ein gwaith thematig a'n hadroddiadau, ac ymdriniwyd â dros 1,800 o ymholiadau gan y cyfryngau.

Rydym yn parhau i fireinio ein gwefan sy'n parhau i fod yn ffynhonnell allweddol ar gyfer gwybodaeth am ein gwaith ac yn cynnig llwybr hawdd ei gyrchu ar gyfer gwneud cwyn. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am ein perfformiad ein hunain yn ogystal â llyfrgell o'n hadroddiadau, cyhoeddiadau ac argymhellion.

Yn 2024/25 derbyniodd ein gwefan 962,648 o ymweliadau tudalen unigryw gan gyfanswm o 295,744 o ddefnyddwyr. Rydym yn parhau i fod yn weithgar ar y cyfryngau cymdeithasol, gan bostio'n rheolaidd ar X (a elwid gynt yn Twitter), LinkedIn ac Instagram. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd ein dilynwyr ar X wedi gostwng ychydig i 30,501, ond wedi cynyddu i 8,148 ar LinkedIn a 703 ar Instagram. Dros y flwyddyn derbyniodd ein postiadau cyfryngau cymdeithasol bron i 2 filiwn o argraffiadau.

Cyflawni o leiaf 40% o ymatebwyr sy'n hyderus bod IOPC yn gwneud gwaith da.

Yn 2024/25 fe wnaethom gyflawni'r targed gyda chanlyniad o 40%, mae hyn yn gynydd o un pwynt canran o ganlyniad llynedd (39%).

Sicrhau bod yr amser cyfartalog i ddatrys cwynion yn erbyn IOPC o fewn 20 diwrnod gwaith.

Gwnaethom ragori ar ein targed yn 2024/25 gyda chanlyniad o 13 diwrnod gwaith, saith diwrnod gwaith yn well na'r targed a osodwyd.

Gwnaethon ni hefyd fonitro ac ymateb i:

Canran yr ymatebwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod, sy'n hyderus bod yr heddlu'n delio â chwynion yn deg.

Yn ein [Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd 2024/25](#) dywedodd cyfartaledd o 39% o ymatebwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig wrthym eu bod yn hyderus bod yr heddlu'n delio â chwynion yn deg (Ymatebwyr Du: 44%; Asiaidd: 40%; Ethnigrwydd cymysg: 33%). I bobl ifanc, y ffigur oedd 36%, ac i fenywod roedd yn 38%.

Canran yr ymatebwyr sy'n credu bod IOPC yn annibynnol o'r heddlu.

Mae 71% o'r ymatebwyr yn ystyried bod IOPC o leiaf i ryw raddau'n annibynnol o'r heddlu. Wedi'i gynnwys yn y ffigur hwnnw mae 23% o'r ymatebwyr sy'n ystyried bod IOPC yn gwbl annibynnol.

Canran y cwynion am yr heddlu a wnaed gan bobl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod.

Yn 2024/25 nododd cyfanswm o 13% o achwynwyr eu hethnigrwydd fel Du, Asiaidd neu Gymysg (5% Du, 6% Asiaidd, 2% Ethnigrwydd Cymysg). Nid ydym yn gwybod ethnigrwydd 29% o'r achwynwyr. Roedd 2% o'r achwynwyr yn 17 oed neu'n iau, roedd 15% rhwng 18 a 29 oed. Roedd 41% o'r achwynwyr yn fenywod. Yn ein data ni dim ond unwaith y cyfrifir achwynwyr, waeth faint o gwynion a wnaethant drwy gydol y flwyddyn.

Gweithio gyda'n rhanddeiliaid

Yn 2024/25 fe wnaethom barhau i hyrwyddo gwelededd ac ymwybyddiaeth o'n gwaith ymhlith cynulleidfaoedd allanol.

Siaradodd ein Cyfarwyddwr Cyffredinol Rachel Watson mewn sawl digwyddiad proffil uchel. Yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Uwch-arolygwyr yr Heddlu, amlinellodd ei gweledigaeth ar gyfer IOPC a'n rhaglen drawsnewid. Mynychodd hi hefyd Gynhadledd Genedlaethol Cymdeithas Plismona Du lle siaradodd am ddiwygio'r heddlu, a rhoddodd ddiweddariad sefydliadol yng Nghynhadledd Safonau a Moeseg Proffesiynol. Yng nghynhadledd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd / Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, ymunodd Rachel â phanel ar gydraddoldeb hil, gan archwilio sut y gellir ymgorffori gwrth-hilioldeb a gwrth-wahaniaethu yn niwylliant plismona. Yn ogystal, cymerodd ran ym mhanel beirniadu Gwobrau Cenedlaethol y Ddalfa, gan gydnabod rhagoriaeth mewn arfer yn y ddalfa, a chynhaliodd sesiwn galw-heibio i ASau gryfhau'r ymgysylltiad seneddol.

Cynrychiolodd Emily Barry IOPC yng Nghynhadledd Menywod mewn Plismona, gan fynd i'r afael â newid diwylliannol i gefnogi menywod mewn plismona. Canolbwyntiodd ei phanel ar gynnydd yn dilyn Adolygiad Casey, Operation Hotton a'r uwch-gŵyn am Gam-drin Domestig gan yr Heddlu.

Rhoddodd Derrick Campbell gyflwyniad ym Mhencadlys Plismona Gwrthderfysgaeth, gan rannu mewnwelediadau i fframwaith safonau proffesiynol y DU a rôl IOPC wrth gefnogi atebolrwydd yr heddlu.

Yn 2024/25 cynhaliwyd dros 300 o gyfarfodydd cymunedol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau craffu cymunedol fel Grwpiau Cynghori Annibynnol, llywodraeth leol, grwpiau crefyddol, ysgolion, grwpiau cymunedol ac eiriolaeth, grwpiau ieuencid, cymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig, heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd. Mae llawer o'r rhain wedi bod yn gyfleoedd ymgysylltu rhagweithiol a geisiwyd gan ein Swyddogion Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, ac mae rhai wedi bod yn

gysylltiedig ag ymchwiliadau parhaus IOPC sydd ar wahanol gamau yn y broses gamymddwyn.

Mae gwrandio ar randdeiliaid a chymunedau yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'n gwaith er mwyn ein helpu ni i ddeall y cymunedau rydym yn gwasanaethu. Yn 2024/25 rydym wedi gweld ein gwaith gwrandio yn gwella ein dealltwriaeth o sut mae cwynion yn cael eu trin gan heddluoedd a lle gallwn gefnogi plismona a'r system cwynion. Rydym wedi gwneud hyn drwy gynyddu ymwybyddiaeth a meithrin perthnasoedd â phob grŵp, yn enwedig gyda gweithwyr proffesiynol ac eiriolwyr sy'n cynrychioli'r rhai sydd â'r lefelau isaf o ymddiriedaeth a hyder, a sianelu'r mewnwleidiad hwn i'n gwaith gweithredol, goruchwyllo a thrawsnewid.

Yn 2024/25, cynhaliodd Panel Ieuenctid IOPC chwe gweithdy heddlu a 13 gweithdy ieuenctid ledled Cymru a Lloegr, gan ganolbwyntio ar ddod â phobl ifanc a'r heddlu sy'n eu gwasanaethu at ei gilydd mewn model 'dau gam', a gyflwynwyd yn llwyddiannus yng Ngorllewin Swydd Efrog, Swydd Derby, a Gogledd Cymru. Gorffennodd y Panel Ieuenctid y flwyddyn ariannol yn paratoi ar gyfer eu digwyddiad arddangos blynyddol yn Leeds, a fydd ym mis Ebrill 2025. Estynnwyd gwahoddiadau i randdeiliaid ar draws plismona, llywodraeth leol a chenedlaethol, y trydydd sector, a chynrychiolwyr ieuenctid a chymunedol. Bydd y digwyddiad yn llywio maniffesto'r Panel Ieuenctid ar gyfer newid yn seiliedig ar eu gweledigaeth o sut olwg fyddai ar system cwynion am yr heddlu a gwasanaeth heddlu sy'n cwrdd ag anghenion pobl ifanc yn 2030. Cyhoeddwyd eu 'Gweledigaeth 2030' ym mis Hydref 2025.

Derbyniwyd dros 2,600 o ymatebion i drydydd arolwg blynyddol y Panel, a oedd yn casglu barn pobl ifanc am blismona a'r broses gwyno yn erbyn yr heddlu. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio gweledigaeth y Panel Ieuenctid ar gyfer system gwynion yn erbyn yr heddlu sy'n bodloni anghenion pobl ifanc, a amlinellwyd ganddynt yn eu Maniffesto dros Newid 2030. Cynhaliwyd pedwaredd flwyddyn yr arolwg yn nhymor yr Hydref 2025. Bydd y Panel Ieuenctid yn cyhoeddi eu canfyddiadau yn ystod Haf 2026 ac maent yn archwilio ffyrdd newydd o rannu'r canfyddiadau mewn modd hygrych.

Mae ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol (ESRG) yn dwyn ynghyd ystod amrywiol o randdeiliaid statudol ac anstatudol, gan gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau elusennol ac ymgyrchu, cyrff plismona a'r Swyddfa Gartref. Mae'r grŵp yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu heriau ac adborth adeiladol ar ein perfformiad a'n mentrau allweddol. Gan weithredu fel bwrdd seinio anffurfiol, mae ESRG yn helpu i lunio a chryfhau ein gwaith drwy gynnig cipolwg ar brosiectau penodol a themâu ehangach sydd â'r nod o wella arferion plismona.

Eleni, gwnaeth ESRG gyfarfod ddwywaith ar-lein, gyda phresenoldeb ac ymgysylltiad cryf yn y ddau gyfarfod. Trwy gydol y flwyddyn, derbyniodd aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am ein 'galwad i weithredu' ar wahaniaethu hiliol a'n danfoniadau cefnogol gan gynnwys canllawiau gwahaniaethu diwygiedig, pecyn cymorth ar gyfer trinwyr cwynion ac adroddiad gwahaniaethu

hiliol IOPC. Clywsant hefyd am ein rhaglen drawsnewid i wella darpariaeth gwasanaethau i achwynwyr a'r heddlu gyda meysydd blaenoriaeth i gynyddu hyder y cyhoedd yn y system cwynion. Roeddem hefyd yn falch o groesawu Panel Ieuenctid IOPC a rannodd eu 'Gweledigaeth 2030' uchelgeisiol a'u syniadau arloesol ar gyfer gwella'r system cwynion am yr heddlu.

Cynhaliom bedwar cyfarfod gyda Chymdeithasau Swyddogion a Staff yr Heddlu / Undebau Llafur, gyda Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas Uwcharolygyddion yr Heddlu, UNISON a Chymdeithas Prif Swyddogion a Staff yr Heddlu wedi'u cynrychioli yn y grŵp. Rhoddodd y fforwm chwarterol hwn gyfle inni roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau allweddol IOPC, megis ein gwaith i ddiffinio ansawdd o fewn ein sefydliad, ein gweithgaredd sy'n ymwneud â gwella ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched (VAWG) a gwahaniaethu ar sail hil, a diweddariad ar ymchwiliad Hillsborough. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Ffederasiwn yr Heddlu trwy'r fforwm hwn mewn perthynas â llesiant swyddogion a staff yn ystod ymchwiliadau IOPC.

Yn 2024/25 lansiodd y tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid brosiect i hyfforddi eiriolwyr cenedlaethol a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i'w cyfarparu â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut i gefnogi defnyddwyr eu gwasanaeth i wneud cwyn. Rydym wedi grymuso, addysgu a chefnogi gweithwyr proffesiynol o sefydliadau cenedlaethol, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth, i godi ymwybyddiaeth o'r system cwynion am yr heddlu, egluro'r broses ac amlinellu eu rôl fel eiriolwyr, wrth gefnogi rhywun i wneud cwyn. Trwy'r gwaith hwn rydym yn cael mewnwleidiad gwerthfawr i'w sianelu i'r sefydliad ehangach a'n gwaith yn y dyfodol, ac i archwilio ble gallwn wneud y broses gwyno yn fwy hygyrch a syml lle bynnag mae modd, i'r rhai sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth ychwanegol.

Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2024 gwnaethom ddarparu i 20 o sefydliadau cenedlaethol gwahanol, gan gyrraedd dros 400 o weithwyr rheng flaen sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaeth, megis Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, gweithwyr achos, staff llinell gymorth ac eiriolwyr eraill. Roedd hyn yn cynnwys Barnardo's, Cyngor ar Bopeth, Galop, Rape Crisis, Respon, Cymorth i Ddiodeffwyr a Cymorth i Fenywod. Yn dilyn ein mewnbwn, dywedodd 100% o'r eiriolwyr fod y sesiwn wedi bod yn ddefnyddiol i'w rôl swydd, bod eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am IOPC a'r system cwynion wedi cynyddu, a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi defnyddiwr gwasanaeth i wneud cwyn.

Fel rhan o'r prosiect hwn, gwnaethon ni weithio gyda'n tîm Cyfathrebu i gynhyrchu canllaw digidol ar gyfer gweithwyr proffesiynol: ['Sut i gefnogi defnyddiwr eich gwasanaeth trwy'r broses cwynion am yr heddlu'](#). Mae'r adnodd rhyngweithiol hwn yn cyd-fynd â chyflwyno'r sesiynau, ac anogir sefydliadau i raeadru'n ehangach o fewn eu timau, er mwyn i staff allu cael mynediad ato a chyfeirio ato pan fydd angen.

Ymchwiliadau Hillsborough

Yn 2012, yn dilyn cyhoeddi canfyddiadau Panel Annibynnol Hillsborough (HIP), lansiwyd ymchwiliad annibynnol i weithredoedd yr heddlu yn sgil trychineb Hillsborough. Pryd hynny roedden ni'n cael ein hadnabod fel Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

Lladdwyd naw deg saith o gefnogwyr Lerpwl yn anghyfreithlon, anafwyd cannoedd, a chafodd niferoedd di-ri eraill eu trawmateiddio o ganlyniad uniongyrchol i'r drychineb a ddigwyddodd ar 15 Ebrill 1989.

Ein hymchwiliad ni fu'r ymchwiliad annibynnol mwyaf erioed i weithredoedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac fe'i cynhaliwyd ochr yn ochr â'r ymchwiliad a reolwyd gan Operation Resolve. Er mwyn sicrhau ei annibyniaeth, rydym wedi rheoli elfennau'r ymchwiliad sy'n ymwneud â'r heddlu i ddarparu goruchwyliaeth a chraffu annibynnol.

Mae cylch gorchwyl ein hymchwiliad annibynnol yn cynnwys:

- gwelliannau i gyfrifon swyddogion Heddlu De Swydd Efrog
- honiadau bod gwybodaeth gamarweiniol wedi'i rannu gyda'r cyfryngau, ASau, y Senedd a'r ymchwiliadau a sefydlwyd yn syth ar ôl y trychineb
- rôl Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr a oedd yn wreiddiol wedi ymchwilio i'r digwyddiadau o amgylch y trychineb

Mae cylch gorchwyl Operation Resolve yn cynnwys ymchwilio i:

- y gwasanaeth ambiwlans
- Clwb Pêl-droed Sheffield Wednesday (a gynhaliodd y gêm)
- Cyngor Dinas Sheffield
- cyfranogiad yr heddlu yn y cynllunio a'r paratoi ar gyfer y gêm, ac ymateb cynnar yr heddlu i'r trychineb

Yn unol â'n rhwymedigaethau o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu (PRA) 2002*, gwnaethom rannu canlyniadau'r cwynion a materion ymddygiad gyda theuluoedd mewn galar fel Unigolion â Diddordeb (IPs), achwynwyr a swyddogion pwnc.

Cyn hyn, derbyniodd pob derbynnydd llythyr rhagarweiniol, yn egluro y byddent yn derbyn eu canlyniadau yn fuan ac yn cynnwys gwybodaeth gefndirol am ein hymchwiliadau, yn ogystal â chwestiynau cyffredin. Y negeseuon allweddol yn y llythyr hwn oedd:

- mae'r ymchwiliadau hyn i ymddygiad hanesyddol yr heddlu wedi bod yn ddigynsail o ran maint a chymhlethdod ac roedd yn angenrheidiol i ni gefnogi achos cyfreithiol parhaus cyn i ni allu ymchwilio i faterion cwynion ac ymddygiad yn llawn.

- rydym yn rhannu rhwystredigaethau teuluoedd mewn galar a phawb yr effeithiwyd arnynt bod y prosesau hir ond angenrheidiol sy'n ymwneud â thrychineb Hillsborough ers 1989 wedi cymryd amser hir.
- nid yw canfyddiadau ein hymchwiliadau yn herio casgliadau adroddiad Panel Annibynnol Hillsborough (HIP) a Chwestau Goldring, yn benodol mewn perthynas â'r heddlu, a sefydlodd y gwir am y trychineb y gwnaeth teuluoedd y rhai a fu farw a'r goroeswyr ymladd mor galed drosto
- mae ychydig dros hanner yr achwynwyr wedi cael o leiaf un cwyn wedi'i gadarnhau neu, ym marn y penderfynydd, byddai achos i'w ateb am gamymddwyn gan un neu fwy o swyddogion, pe baent wedi parhau i wasanaethu
- mae nifer o ffactorau wedi cyfyngu ar ein gwaith, gan gynnwys yr heriau o ymchwilio i ddigwyddiadau mor hwyr ar ôl y trychineb a'r diffyg dyletswydd gonestrwydd ymhlith yr heddlu
- rydym yn croesawu dyletswydd statudol gryfach newydd arfaethedig y Llywodraeth i fod yn onest ar gyfer pob gwas cyhoeddus

Yn unol ag argymhellion yr HIP, rydym hefyd yn gweithio tuag at ddychwelyd deunydd sy'n gysylltiedig â thrychineb Hillsborough, lle rydym wedi bod yn geidwaid iddo, i'r cyfranwyr gwreiddiol ac yn dechrau trosglwyddo deunydd i'w gadw yn y tymor hir i'r Archif Genedlaethol.

Y tu allan i'r flwyddyn adrodd, ym mis Rhagfyr 2025, [cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliadau Hillsborough ar ein gwefan](#).

Amcan: atebolrwydd

Mae'r system cwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n dal yr heddlu i gyfrif.

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni

1. Ymdriniaeth amserol, o ansawdd uchel a chyson o gwynion gan heddluoedd.
2. Mae adolygiadau (gan IOPC a PCCs) yn cyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr lle nad yw cwynion wedi'u datrys yn lleol.
3. Mae IOPC yn cynnal ymchwiliadau o ansawdd uchel ac amserol sy'n mynd i'r afael â'r materion mwyaf difrifol a sensitif.
4. Mae ein gwaith yn dangos ymateb bwriadol ac ystwyth i faterion sy'n effeithio ar hyder mewn plismona.

Mesur cynnydd yn erbyn ein hamcanion

Pan wneir cwynion yn erbyn yr heddlu, dylid sicrhau y cyhoedd y byddant yn cael eu trin yn gadarn ac yn deg. Rhaid deall hefyd y bydd digwyddiadau difrifol a chwynion am ymddygiad swyddogion heddlu yn cael eu hymchwilio'n ddiudedd, y bydd swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif am ymddygiad gwael, ac y bydd y gwasanaeth heddlu yn dysgu ac yn gwella.

Yn 2024/25 gwnaethom barhau i weithio i ymchwilio'n annibynnol i'r digwyddiadau mwyaf difrifol yn ymwneud â'r heddlu. Mae'r galw wedi cynyddu ar draws y system cwynion am yr heddlu, gan achosi heriau o ran capasiti IOPC a'r heddluoedd. Roedd cymhlethdod achosion yn cynyddu'r her, ynghyd ag ôl-ffeithiau ein rhewiad recriwtio yn 2023/24.

Mae ymchwilwyr newydd wedi cael eu recriwtio yn 2025/26 fel rhan o'n rhaglen drawsnewid, ac mae ein model gweithredu cenedlaethol newydd yn golygu y gellir dyrannu achosion iddynt sy'n digwydd mewn unrhyw ran o Gymru a Lloegr, gan ein gwneud yn fwy ymatebol ac ystwyth.

Cofnodwyd bron i 95,000 o gwynion yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 26% ers 2021/22. Mae ceisiadau adolygu i fyny 49% ac mae atgyfeiriadau i fyny 27% yn yr un cyfnod.

Roedden ni'n anelu at:

Gwblhau 85% o ymchwiliadau craidd o fewn 12 mis.


Eleni fe wnaethom gwblhau 71.7% o'n hymchwiliadau craidd o fewn 12 mis, sy'n is na'r darged o 85%. Mae gwella amseroldeb ein hymchwiliadau yn nodwedd bwysig o'n cynllun trawsnewid, sydd eisoes ar y gweill. Ein uchelgais yw cwblhau 90% o'n hymchwiliadau craidd o fewn naw mis. Gallwch ddarllen mwy am ein proses trawsnewid ar dudalen 11.

Cwblhau 33% o ymchwiliadau craidd o fewn chwe mis.


Eleni fe wnaethon ni gwblhau 31.3% o ymchwiliadau craidd o fewn chwe mis, gan fethu ein targed o 33%.

Rydym yn gwahanu ymchwiliadau mawr oddi wrth ein llwyth achosion craidd ar gyfer ein metrigau perfformiad allweddol. Gan gynnwys ymchwiliadau mawr, ar ddiwedd 2024/25 roedd gennym 225 o ymchwiliadau gweithredol gyda hyd cyfartalog o 207 diwrnod gwaith (tua deg mis). O'r rhain, roedd gan 75% (169) gyfnod o lai na 12 mis a 43% (96) gyfnod o lai na chwe mis.

O'i gymharu â 2023/24, mae hyn naw pwynt canran yn is ar gyfer ymchwiliadau o dan 12 mis a 12 pwynt canran yn is ar gyfer rhai o dan chwe mis.



Yn y flwyddyn ariannol 2024/25 fe wnaethom barhau i ymgymryd ag achosion gyda meysydd thematig, gan ganolbwyntio ar drais yn erbyn menywod a merched (VAWG), a gwahaniaethu ar sail hil.



Mae'r siart uchod yn dangos ymchwiliadau annibynnol wedi'u cwblhau a'u cychwyn – ymchwiliadau craidd ac ymchwiliadau mawr – dyna pam mae yna wahaniaeth rhwng y ffigurau ar y siart a'r rhai yn y paragraffau canlynol.

Yn 2024/25 fe wnaethom ddechrau 235 o ymchwiliadau annibynnol craidd (38 yn llai nag yn 2023/24) a chwblhau 245 (54 yn llai nag yn 2023/24).

Roedd penderfyniadau blaenorol ar gyllid IOPC wedi lleihau ein gallu i recriwtio, a oedd yn ei dro yn effeithio ar ein gallu i ymgymryd â mwy o ymchwiliadau. Yn ogystal, mae ymchwiliadau wedi dod yn fwyfwy cymhleth, fel y cydnabu Dr Fairfield yn ei [hadolygiad annibynnol o IOPC](#) a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Rydym wedi canolbwyntio ein hadnoddau ar yr achosion mwyaf difrifol, ac ar gau achosion agored.

Mae ein rhaglen drawsnewid wedi'i chynllunio i gynyddu cynhyrchiant, gan ganiatáu inni ymgymryd â mwy o achosion yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhaglen eisoes yn cael effaith gadarnhaol.

Ymchwiliadau mawr

Fel arfer, cynhelir ymchwiliadau mawr i'r digwyddiadau mwyaf cymhleth a difrifol sy'n gofyn am adnoddau sylweddol gan IOPC am gyfnod hir. Penderfynir a yw ymchwiliad IOPC yn cael ei ddatgan yn ymchwiliad mawr fesul achos.

Eleni 2024/25 rydym wedi cychwyn naw ymchwiliad annibynnol mawr, tri yn fwy o gymharu â 2023/24, pan y cychwynnom chwech. Rydym wedi cwblhau un

ymchwiliad annibynnol mawr eleni. Cymerodd hyn 2,038 diwrnod gwaith i'w gwblhau. Mae'r ymchwiliad dan sylw wedi bod yn helaeth ac yn gymhleth, gan gynnwys tua 50 o wrthrychau ac yn cwmpasu cyfnod hanesyddol arwyddocaol o 1991 i 2009, gyda rhywfaint o ddeunydd perthnasol yn dyddio'n ôl cyn 1991. Roedd ehangder a dyfnder y materion dan sylw yn golygu bod angen dull trylwyr a threfnus.

Mae ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at hyd yr ymchwiliad yn cynnwys:

- Graddfa a chwmpas. Roedd y nifer fawr o unigolion dan sylw a hyd hanesyddol y digwyddiadau yn gofyn am ystyriaeth gofalus o gyfaint sylweddol o wybodaeth.
- Pontio mewnol cynnar a dyrannu adnoddau. Cafodd y cynnydd ei effeithio ar wahanol gamau gan argaeledd adnoddau arbenigol, gan gynnwys y profiad ymchwilio oedd ei angen a'r angen i benodi penderfynydd ymroddedig i oruchwylio'r nifer sylweddol o benderfyniadau oedd eu hangen.
- Pwnc sensitif. Mae'r ymchwiliad yn cynnwys elfennau sy'n gysylltiedig â cham-drin rhywiol plant (CSA), gan olygu bod angen mwy o sensitifrwydd ynghylch trin a datgelu gwybodaeth o bosibl, yn enwedig mewn perthynas ag achwynwyr, tystion, a gwrthrychau.
- Dogfennaeth ac adrodd. Mae'r ymchwiliad wedi cynhyrchu dogfennaeth helaeth, gan gynnwys prosesau gwneud penderfyniadau manwl a chanlyniadau i'r rhai dan sylw sy'n gofyn am bwyll a thryloywder.
- Nifer y cwynion. Codwyd nifer sylweddol o faterion cwyn, ac roedd angen asesiad ac ymateb manwl i bob un.

Mae'r ffactorau hyn oll yn adlewyrchu cymhlethdod a sensitifrwydd yr ymchwiliad, a'r ymrwymiad i sicrhau proses gadarn a theg drwyddi draw.

Ar ddiwedd 2024/25 roedd gennym 20 o ymchwiliadau annibynnol mawr gweithredol, gyda hyd cyfartalog o 414 diwrnod gwaith. Mae hyn yn gyflymach na'r hyd cyfartalog o 542 diwrnod gwaith yn 2023/24, pan oedd y llwyth achosion gweithredol yn 12.

Gwneud yn siŵr bod yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau adolygiad yn 100, 90, 80, 70 diwrnod gwaith yn chwarteri 1-4 yn y drefn honno, ar ôl derbyn papurau cefndirol.


Cyflwynodd *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf yr Heddlu a Throseddau 2017* yr hawl i'r achwynydd wneud cais am adolygiad o ganlyniad eu cwyn. Mae adolygiadau'n ystyried a yw canlyniad y driniaeth o'r gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur (sy'n golygu bod y driniaeth yn briodol o dan yr amgylchiadau, gan ystyried y ffeithiau a'r cyd-destun wrth ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid da).

Dim ond pan fydd yr holl ddeunydd ategol wedi cael ei dderbyn gennym gan yr heddlu y gallwn ddechrau adolygiad.

- Yn chwarter 1, ein nod oedd cwblhau pob adolygiad o fewn cyfartaledd o 100 diwrnod gwaith. Fe wnaethon ni gyflawni ffigur cyfartalog o 132 diwrnod gwaith.
- Yn chwarter 2, ein nod oedd cwblhau pob adolygiad o fewn cyfartaledd o 90 diwrnod gwaith. Fe wnaethon ni gyflawni ffigur cyfartalog o 122 diwrnod gwaith.
- Yn chwarter 3, ein nod oedd cwblhau pob adolygiad o fewn 80 diwrnod gwaith. Fe wnaethon ni gyflawni ffigur cyfartalog o 120 diwrnod gwaith.
- Yn chwarter 4, ein nod oedd cwblhau pob adolygiad o fewn 70 diwrnod gwaith. Fe wnaethon ni gyflawni ffigur cyfartalog o 155 diwrnod gwaith.

Trwy gydol y flwyddyn, cymerodd adolygiadau gyfartaledd o 132 diwrnod gwaith i'w cwblhau, cynnydd o'i gymharu â 2023/24 (119 diwrnod gwaith) - fodd bynnag, eleni gwelwyd cynnydd o 14% yn nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd. Mae gwelliannau i'n proses gweithdroi adolygiadau hefyd yn agwedd arall ar ein cynllun trawsnewid, sydd eisoes yn cael effaith gadarnhaol. Ers mis Ionawr 2025 rydym wedi cau mwy o adolygiadau'n gyson nag ydym wedi'u derbyn bob mis, a mis Mawrth oedd â'r nifer uchaf o adolygiadau wedi'u cwblhau o unrhyw fis yn 2024/25.

Mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers i'r diwygiadau deddfwriaethol gael eu gweithredu, ac mae'r galw am adolygiadau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2024/25 derbyniwyd 2,451 o geisiadau am adolygiadau o gwynion a gofnodwyd o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Roedd 948 o



Adolygiadau Ymchwiliad a 1,503 o Adolygiadau Trin Eraill. Mae'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau at IOPC yn ddylanwadol yn y cynnydd hwn gan mai IOPC yw'r corff adolygu perthnasol lle cyfeiriwyd cwyn a'i dychwelyd i'r heddlu i'w hymchwilio neu i'w thrin yn lleol.

Ar ddiwedd 2024/25 roedd ôl-groniad yr achosion a oedd yn aros i gael eu hadolygu yn 1,397 ac roedd defnyddwyr gwasanaeth yn aros tua 12 mis am benderfyniad.

Roedd yr ôl-groniad a'r amser a gymerwyd i gwblhau adolygiadau wedi cynyddu ymhellach oherwydd y galw cynyddol a'r cynnydd parhaus yng nghymhlethdod achosion a adolygwyd ers newidiadau deddfwriaethol 2020. Yn 2024/25 fe wnaethom barhau â'n Cynllun Gweithdroi Gweithrediadau Cenedlaethol (NOTP) i fynd i'r afael â pherfformiad a sicrhau bod y prosesau cywir ac adnoddau digonol ar waith, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Roedd ein cyllid ychwanegol yn 2024/25 yn caniatáu inni recriwtio rheolwyr gwaith achos newydd ar gontractau tymor penodol a pharhaol i helpu clirio ein ôl-groniad adolygiadau. Ers diwedd y flwyddyn ariannol mae amser aros defnyddwyr gwasanaeth am benderfyniad ar eu hadolygiad wedi gostwng, i tua naw mis ym mis Medi 2025.

Ochr yn ochr â'r recriwtio, fe wnaethom barhau â gwelliannau busnes a greodd ffyrdd gwell o weithio i wella amseroldeb dros y tymor canolig a'r tymor hir, trwy becynnau gwaith amrywiol. Mae'r gwahanol ffrydiau gwaith gwelliant yn cwrdd gofynion defnyddwyr gwasanaeth, galw, gwella prosesau, trefniadaeth gwaith, pobl, strwythur a data perfformiad.

Gwnaethom barhau i ddadansoddi'r galw gan heddluoedd, ac arweiniodd hyn at weithio gyda heddluoedd i wella eu dull o drin achosion a dull cyd-gysylltiedig o wneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym hefyd wedi gweithredu system flaenoriaethu ar gyfer pob math o adolygiad i nodi achosion cyflym a rhai mwy cymhleth, i gefnogi dyraniad i dimau penodol a rheolwyr gwaith achos.

Mae pecynnau gwaith wedi cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod 2024/25:

- Er mwyn ehangu gwelliant perfformiad parhaus a datblygiad personol, mae Drive (proses adolygu perfformiad a datblygiad IOPC)
- Er mwyn rheoli'r galw'n well drwy broses i gomisiynu gwaith pellach ar rai adolygiadau, cyflwyno taflen wybodaeth berthnasol i'r corff adolygu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a gwelliannau i'n gwefan a'n ffurflen adolygiadau ar-lein.
- I ddatblygu dulliau mwy cymesur ar gyfer ein hadolygiadau ac achosion Marwolaeth ac Anafiadau Difrifol (DSI).

Rydym wedi gweld hyn yn gwneud gwahaniaeth o ran cynhyrchiant ac ansawdd.

Mae NOTP bellach yn rhan o'n rhaglen drawsnewid ehangach, er mwyn cyflawni gwelliannau pellach ar gynhyrchiant ac amseroldeb.

Adolygu achosion marwolaeth ac anafiadau difrifol a ymchwiliwyd yn lleol o fewn cyfartaledd o 45, 40, 35, 30 diwrnod gwaith (chwarteri 1-4 yn y drefn honno) ar ôl derbyn y papurau cefndirol.

Rhaid atgyfeirio pob mater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) sy'n cynnwys swyddogion neu staff yr heddlu at IOPC. Nid yw atgyfeiriad DSI at IOPC o reidrwydd yn golygu bod unrhyw beth wedi mynd o'i le neu fod unrhyw un yn anfodlon â sut y cafodd y sefyllfa ei thrin. Os penderfynwn y dylai'r heddlu ymchwilio i'r mater yn lleol, a bod yr heddlu'n penderfynu nad oedd tystiolaeth o droseddoldeb nac arwydd o ymddygiad sy'n cyfiawnhau gweithdrefnau disgyblu, rhaid iddynt anfon copi o'u hadroddiad ymchwiliad atom i'w adolygu.

Dim ond pan fydd yr holl ddeunydd ategol wedi cael ei dderbyn gennym gan yr heddlu y gallwn ddechrau adolygiad. Yn 2024/25, gwnaethom ni adolygu 1,112 o adroddiadau ymchwiliadau heddlu yn dilyn eu hymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol. Ar gyfartaledd, cymeron ni 44 diwrnod gwaith i gwblhau'r adolygiadau hyn o dderbyn y dogfennau ategol.


Mae newidiadau i'r ffordd rydym yn cyflawni'r gwaith hyn drwy ein NOTP wedi lleihau'r ôl-groniat adolygiadau Marwolaeth ac Anafiadau Difrifol (DSI) gan dros 25%.

Penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer pob achos a atgyfeirir atom o fewn cyfartaledd o bum diwrnod gwaith.

Yn 2024/25, gwnaethom dderbyn 6,904 o atgyfeiriadau gan awdurdodau priodol, ac fe benderfynom a ddylid ymchwilio iddynt ac, os felly, sut y dylid gwneud hynny. Gwnaethom gyrraedd ein targed o bum diwrnod gwaith ar gyfer 43% o'r atgyfeiriadau.

Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau atom gan 85% rhwng 2017/18 (3,823 o atgyfeiriadau) a 2023/24 (7,058 o atgyfeiriadau), gyda chynnydd canrannol dau-ddigid yn y tair blynedd diwethaf o'r rheini. Dangosodd y flwyddyn ariannol hon ostyngiad bach (2%), y cyntaf mewn saith mlynedd.

O'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gennym eleni, roedd 96% (6,630) yn orfodol a 4% (271) yn wirfoddol. Roedd ffigurau llynedd yn 95% (6,726) gorfodol a 5% (338) gwirfoddol. Roedd tri deg naw o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gennym eleni gan gyrff plismona lleol ac yn ymwneud â gweithredoedd prif swyddog. Gallwch ddysgu mwy am y materion sydd rhaid eu cyfeirio atom [ar ein gwefan](#).



Atgyfeiriadau gan sefydliadau eraill o dan ein cylch gwaith

Rydym yn gyfrifol am y ffordd mae rhai cwynion a materion ymddygiad ynghylch prif swyddogion, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (PCCs), a rhai sefydliadau nad ydynt yn heddluoedd yn cael eu trin. Mae hyn yn cynnwys:

- cwynion neu faterion ymddygiad a gyfeiriwyd atom gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau neu gyrff plismona lleol etholedig eraill (ELPBs) ynghylch ymddygiad Prif Swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitaidd). Gallwch [ddarllen mwy am PCCs yma](#), gyda [rhestr lawn ar gael yma](#).
- cwynion difrifol a materion ymddygiad ynghylch Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddau a'u dirprwyon priodol sy'n gyfystyr â chyflawni trosedd neu'n ymwneud â chyflawni trosedd o'r fath. Mae'n ofynnol i baneli heddlu a throseddau (PCPs) gyfeirio'r rhain atom ni

- cwynion difrifol yn erbyn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), gan gynnwys cwynion sy'n ymwneud ag elw gweithgaredd troseddu
- rhai mathau o gwynion difrifol yn erbyn staff y Swyddfa Gartref sy'n cyflawni rhai swyddogaethau ffiniau a mewnfudo (gan gynnwys y rhai yn erbyn staff sydd wedi'u contractio gan y Swyddfa Gartref i gyflawni rhai swyddogaethau ar eu rhan)
- cwynion difrifol yn erbyn staff Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)
- pobl sy'n gweithredu fel swyddogion atal cam-drin llafur yn Awdurdod Cam-drin Llafur Meistri Gangiau (GLAA)


Ar ôl derbyn atgyfeiriad neu gwyn, rydym yn asesu a ddylid ymchwilio i'r mater. Efallai y byddwn yn penderfynu nad oes angen delio â'r mater o dan y rheoliadau, ac os felly gall y sefydliad ddelio â'r mater trwy brosesau mewnol neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Ein nod yw i'r sefydliadau hyn ddysgu o'n gwaith a gwella eu harfer o ganlyniad.

Atgyfeiriadau gan PCCs / ELPBs

Pan fydd atgyfeiriadau at IOPC yn ymwneud â phrif swyddog, mae profion gwahanol yn berthnasol yn dibynnu ar a yw'r atgyfeiriad yn cynnwys cwyn neu fater o ymddygiad. Yn 2024/25, cawsom 39 o atgyfeiriadau gan PCCs neu ELPBs o'i gyharu â 18 yn 2023/24.


Gwneir ein penderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio i'r mater a atgyfeiriwyd a'r dull ymchwilio pan fyddwn wedi cwblhau ein hasesiad. Yn 2024/25 cwblhawyd 38 o atgyfeiriadau gan PCCs neu ELPBs ac ar gyfer 17 ohonynt, penderfynom nad oedd angen ymchwilio i'r mater a'i atgyfeirio yn ôl at y PCC / ELPB. Penderfynon ni ymchwilio'n annibynnol i 21 o'r materion a atgyfeiriwyd.



Atgyfeiriadau gan PCPs


Os yw atgyfeiriad yn ymwneud â PCC neu Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu (MOPAC) a'u Dirprwyon priodol, neu unrhyw berson arall a benodir i gyflawni rôl PCC neu ddirprwy PCC, bydd yr atgyfeiriad yn cael ei dderbyn gan y panel heddlu a throseddu (PCP). Gwnaethom dderbyn deg atgyfeiriad gan PCPs yn 2024/25, cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan dderbyniasom ddau.

O'r deg atgyfeiriad PCP a gwblhawyd gennym yn 2024/25, atgyfeiriwyd naw yn ôl at PCPs i ymdrin â'r mater yn ym mha bynnag ffordd resymol a chymesur y caiff ei bennu. Penderfynon ni ymchwilio'n annibynnol i un o'r materion a atgyfeiriwyd.



Atgyfeiriadau gan sefydliadau nad ydynt yn heddluoedd

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan sefydliadau nad ydynt yn heddluoedd dros y pedair mlynedd diwethaf.



Apeliadau NCA

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 cwblhawyd tair apêl ymchwiliad gan NCA. Roedd y tri yn apeliadau dilys, ond ni chawsant eu cadarnhau.

Apeliadau CThEF

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 cwblhaom dri apêl ymchwiliad CThEF: roedd y tri yn apeliadau dilys, ond ni chawsant eu cadarnhau.

Gweithio gyda'r GLAA a'r Swyddfa Gartref

Ni chafwyd unrhyw apeliadau yn erbyn yr Awdurdod Meistri Gangiau a Chamdrin Llafur (GLAA).

Gwnaethon ni gwblhau un apêl yn erbyn y Swyddfa Gartref yn 2024/25, a oedd yn apêl ddilys, ond ni gafodd ei gadarnhau.

Anelu at sicrhau bod o leiaf 90% o'n hymchwilydd, sydd wedi bod yn y swydd am o leiaf 24 mis, yn cyflawni achrediad Pearson.

Eleni fe wnaethon ni gyflawni canlyniad o 87%. Fel rhan o'n rhaglen trawsnewid, rydym yn symud i gynllun achredu newydd ar gyfer ein hymchwilydd. Bydd pawb nawr yn cwblhau hyfforddiant y Rhaglen Broffesiynoli Ymchwiliadau (PIP) sy'n cyd-fynd â hyfforddiant yr heddlu a bydd yn rhoi ymchwilydd ar sail gyfartal â swyddogion heddlu sy'n cyflawni'r un cymhwyster.

Dechreuodd y garfan gyntaf i ymuno â rhaglen hyfforddi ac achredu PIP ym mis Hydref 2024 ac mae perfformiad yn erbyn y cynnydd disgwyliedig yn gryfach na'r disgwyl, gydag un ymchwilydd eisoes wedi cyflawni statws Lefel 1 PIP.

Mae gweithredu'r newid hwnnw, sy'n cael ei gyflawni gan ein tîm Dysgu a Datblygu, wedi golygu bod rhywfaint o weithgarwch achredu Pearson presennol wedi'i ohirio ac wedi effeithio ar gyflawni'r targed o 90%.

Ymdrechu i sicrhau bod 95% o staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol erbyn y dyddiad cau.

Eleni fe wnaethon ni gyflawni canlyniad o 94%, ychydig islaw'r targed o 95%.

Gwnaethon ni hefyd fonitro ac ymateb i:

Nifer yr ymchwiliadau cyfeiriedig/rheoledig a gychwynnwyd ac a gwblhawyd.

Heb gynnwys ymchwiliadau mawr, rydym wedi cychwyn 68 o ymchwiliadau craidd dan gyfarwyddyd/rheolaeth. Mae hyn yn gynnydd o 51% (23) yn nifer yr ymchwiliadau a ddechreuwyd o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2023/24 pan ddechreuom 45.

Mae cynnydd sylweddol pellach yn nifer yr ymchwiliadau craidd dan gyfarwyddyd/rheolaeth a gwblhawyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi cwblhau tair gwaith yn fwy o ymchwiliadau yn 2024/25 (91) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (30).

Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith i gwblhau ymchwiliadau cyfeiriedig/rheoledig.

Mae'r amser a gymerodd i ni gwblhau'r ymchwiliadau hyn wedi gostwng 19% o'i gymharu â 2023/24, gan fynd o 479 i 387 diwrnod gwaith yn 2024/25.

Canran yr ymchwiliadau annibynnol craidd lle mae'r weithdrefn ynghylch y canlyniad argymelledig wedi'i chwblhau o fewn 12 mis i'n adroddiad terfynol.

Er nad yw hyn yn fesur o berfformiad IOPC, mae'n rhan o'r ffordd rydym yn monitro sut mae'r system cwynion gyffredinol yn gweithredu.

Unwaith y byddwn wedi cwblhau ein adroddiad ymchwiliad terfynol, gallai achos ddod yn 'ôl-derfynol', sy'n golygu ei fod yn aros am gasgliad unrhyw adolygiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron a phenderfyniad cyhuddo ac unrhyw achos dilynol, neu gwest crwner, neu gasgliad unrhyw weithdrefnau camymddwyn. Mae nifer cynyddol o achosion ôl-derfynol yn golygu diffyg cau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac effaith negyddol ar ein capasiti ar gyfer achosion byw.

Gellir dod o hyd i'r data diweddaraf sydd ar gael yn ein adroddiad Canlyniadau blynyddol, sydd [ar gael ar wefan IOPC](#).

Canran yr adolygiadau a gadarnhawyd gan IOPC.

Pan fyddwn yn derbyn cais am adolygiad, rydym yn asesu a oedd y ffordd y cafodd cwyn ei drin neu'r canlyniad terfynol yn rhesymol ac yn gymesur. Mae 'rhesymol a chymesur' yn golygu gwneud yr hyn sy'n briodol yn yr

amgylchiadau, gan ystyried y ffeithiau a'r cyd-destun y codwyd y gŵyn ynddo, o fewn fframwaith y ddeddfwriaeth a'r canllawiau.

Yn 2024/25, penderfynom nad oedd canlyniad 30% o'r adolygiadau dilys a gwblhawyd (603 allan o 2,020) yn rhesymol nac yn gymesur. Yn y sefyllfa hon mae ein dewisiadau'n cynnwys:

- gwneud ein canfyddiadau ein hunain
- cyfarwyddo y dylid ail-ymchwilio i'r gŵyn
- gwneud argymhelliad y dylai unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fynychu gweithdrefnau camymddwyn neu gamymddwyn difrifol
- neu wneud argymhelliad gyda'r bwriad o unioni'r anfodlonrwydd a fynegwyd gan yr achwynydd dan sylw.

Lle nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu ar adolygiad o ymchwiliad heddlu, gallwn ofyn i'r heddlu wneud gwaith pellach i gasglu deunydd tystiolaethol ychwanegol. O'r adolygiadau a gwblhawyd yn 2024/25, comisiynwyd gwaith pellach ar wyth adolygiad.

Drwy ein prosiect 'lawn y Tro Cyntaf' rydym yn helpu Adrannau Safonau Proffesiynol i wella'u gallu i ddatrys cwynion, gyda'r nod o wella canlyniadau i achwynwyr a lleihau nifer yr adolygiadau sy'n dod atom.

Canran yr ymatebwyr sy'n hyderus bod yr heddlu'n delio'n deg â chwynion a wneir yn eu herbyn.

Yn 2024/25 dywedodd 41% o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn hyderus bod yr heddlu'n delio'n deg â chwynion a wneir yn eu herbyn.

Canran y cyfathrebiadau â defnyddwyr gwasanaeth sy'n bodloni ein safonau ansawdd ac amseroldeb mewnol.

Ar hyn o bryd nid oes gennym y data wedi'i lanhau i adrodd ar y mesur hwn, ond bydd manylion yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl ar wefan IOPC.

Canran yr adolygiadau a gadarnhawyd gan gyrff plismona lleol.

Yn dibynnu ar amgylchiadau'r cwyn, gall y corff plismona lleol (LPB) ystyried cais am adolygiad. Yn 2024/25, cwblhaodd LPBs 4,031 o geisiadau i'w hadolygu. Fe wnaethant gadarnhau 22% (883) o'r adolygiadau dilys a gwblhawyd ganddynt (ystyried bod adolygiad yn ddilys os yw'n bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys pa wybodaeth a ddarparwyd, a ydyw wedi'i wneud gan y person cywir, neu a ydyw wedi'i wneud o fewn amserlen benodol). Mae

hyn yn cymharu â 30% (603) o adolygiadau IOPC a gadarnhawyd gennym yn yr un cyfnod.

Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith y mae cyrff plismona lleol yn eu cymryd i gwblhau adolygiadau.

Yn 2024/25 cwblhaodd LPBs adolygiadau mewn amser cyfartalog o 48 diwrnod gwaith.

Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith mae heddluoedd yn eu cymryd i gwblhau achosion cwyn o dan Atodlen 3.

Pan fydd heddlu'n derbyn cwyn, rhaid ei gofnodi a gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cofnodi'r cwyn o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, sy'n nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer trin cwynion am yr heddlu. Mae ein canllawiau statudol yn diffinio cwyn fel mynegiant o anfonlonrwydd â'r ffordd y mae rhywun wedi cael ei drin neu â'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn. Gellir datrys rhywfaint o anfonlonrwydd, sydd ddim yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofnodi, yn gyflym er boddhad yr achwynnydd (trin anffurfiol). Rhaid cofnodi mynegiadau eraill o anfonlonrwydd (trin ffurfiol).

Yn 2024/25 cymerodd gyfartaledd o 146 diwrnod gwaith i heddluoedd gwblhau achosion o gwynion ffurfiol o dan Atodlen 3 (o'i gymharu â 140 diwrnod gwaith yn 2023/24). Mae'r cyfrifiadau hyn yn cynnwys yr amser y gellir atal cwyn oherwydd materion troseddol.

Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith y mae heddluoedd yn eu cymryd i gwblhau achosion cwyn y tu allan i Atodlen 3.

Yn 2024/25 cymerodd gyfartaledd o 22 diwrnod gwaith i heddluoedd gwblhau achosion cwynion anffurfiol y tu allan i Atodlen 3 (o'i gymharu ag 20 diwrnod gwaith yn 2023/24).

Goruchwyllo'r system cwynion am yr heddlu

Yn 2024/25 fe wnaethom gynnal ein goruchwyliaeth o'r pryderon a'r heriau cenedlaethol sy'n wynebu plismona. Gwnaethom barhau â'n prosiectau i wella'r ffordd y maent yn ymdrin â chwynion am wahaniaethu ar sail hil ac i ddal heddluoedd i gyfrif am eu hymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys trais gan yr heddlu.

Fe wnaethom hefyd barhau i fonitro perfformiad heddluoedd o ran delio â chwynion, gan roi cyngor ac arweiniad i'w cynorthwyo i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol, a chyflwyno mewnbynnau wedi'u targedu ar feysydd o'r ddeddfwriaeth i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

Gwahaniaethu ar sail hil

Parhaodd y tîm Goruchwyllo i weithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad ac eraill o fewn y system gwynion i hyrwyddo a chefnogi gwell ddealltwriaeth o sut mae cwynion gwahaniaethu ar sail hil yn cael eu trin.

Ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom ddatblygu a chyhoeddi pecyn cymorth sy'n cynnwys canllawiau manwl a byr ychwanegol, a gwybodaeth i gefnogi trinwyr cwynion wrth ymateb i gwynion gwahaniaethu ar sail hil. Byddant yn cael eu diweddarau'n barhaus wrth i ni ac eraill nodi ble y gallai fod angen rhagor o gymorth neu wrth i arferion effeithiol gael eu cydnabod a'u rhannu.

Trais yn erbyn menywod a merched

Yn ystod 2024/25 gwnaethom gwblhau ein hymarfer cynlluniedig gyda detholiad o heddluoedd i gael gwell ddealltwriaeth o sut mae nhw'n ymdrin ag adroddiadau am gam-drin domestig gan yr heddlu. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2024.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o 'alwadau i weithredu' sydd wedi'u hanelu'n bennaf at heddluoedd. Yn hytrach na gwneud argymhellion newydd, rydym wedi canolbwyntio ar amlygu'r arfer addawol yr ydym wedi'i ganfod a hefyd y meysydd sydd angen eu gwella o hyd. Ein bwriad yw i'r galwadau gweithredu hyn osod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion a materion ymddygiad sy'n ymwneud â PPDA ac rydym yn galw ar heddluoedd i'w defnyddio fel rhestr wirio i'w ystyried yn erbyn eu prosesau. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella a all fod yn berthnasol i'w llu heddlu.

Er mwyn cefnogi trinwyr cwynion ymhellach, paratowyd rhifyn o Focus ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched, i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2025. Mae Focus yn darparu canllawiau ymarferol i adrannau safonau proffesiynol (PSDs) yr heddlu a chyrrff plismona lleol ar ddelio â chwynion, materion ymddygiad, ac achosion o farwolaeth neu anaf difrifol. Mae'n eu cefnogi i ymdrin â chwynion yn briodol ac yn gwella safonau.

Amcan: arwain gwelliant

Mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni

1. Tystiolaeth o welliannau mewn polisi, arfer a diwylliant plismona o ganlyniad i'n gwaith.
2. Rydym yn dylanwadu ac yn cynnull amrywiaeth o bartneriaid i weithio gyda ni i ddylanwadu ar newid.
3. Mae IOPC yn cael ei gydnabod fel arweinydd mewn gwella plismona a llais dibynadwy, cywir ac annibynnol.

Mesur cynnydd yn erbyn ein hamcanion

Roedden ni'n anelu at:

Gyflawni 80% o'n hargymhellion dysgu Paragraff 28A sy'n cael eu derbyn gan dderbynwyr.

Pan caiff argymhelliad ei gyhoeddi o dan y pŵer hwn, mae'n ofynnol i'r derbynnydd ddarparu ymateb. O'r 32 o argymhellion a gyhoeddwyd yn 2024/25, derbyniwyd 94% (32) a ni dderbyniwyd 6% (2), ymhell o flaen ein targed.

Cynyddu canran y rhanddeiliaid plismona sy'n credu ein bod ni'n effeithiol yn rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu i 67%.

Roedd 58% o randdeiliaid plismona o'r farn bod IOPC yn perfformio'n dda mewn rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu, er bod hyn yn is na'n darged.

Cynyddu canran y rhanddeiliaid atebolrwydd plismona sy'n credu ein bod yn effeithiol yn rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu i 67%.

Roedd 62% o randdeiliaid atebolrwydd yr heddlu o'r farn bod IOPC yn perfformio'n dda wrth rannu dysgu i wella arferion yr heddlu, pum pwynt canran yn is na'n targed, ond gwelliant o dair pwynt canran ers 2023/24.

Anelu at gyflawni 46% o randdeiliaid tu hwnt i blismona sy'n credu ein bod yn effeithiol wrth rannu dysgu i wella arferion yr heddlu.

Roedd 44% o randdeiliaid tu hwnt i blismona o'r farn bod IOPC yn perfformio'n dda wrth rannu dysgu i wella arferion yr heddlu – mae hyn ychydig islaw ein targed, ond mae wedi aros yn gyson o flwyddyn i flwyddyn.

Cynnal dros 90% o'r ymatebwyr sy'n dweud bod cylchgrawn 'Dysgu'r Gwersi' yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ategu gwybodaeth a dderbynnir o hyfforddiant, briffiau neu brofiad ymarferol.

Eleni gwnaethon ni ragori ar y targed o 90% gyda chanlyniad o 91% ar gyfer 2024/25.

Mae ein cylchgronau Dysgu'r Gwersi [ar gael ar y wefan IOPC](#).

Gwnaethon ni hefyd fonitro ac ymateb i:

Canran yr ymatebwyr sy'n credu bod IOPC yn effeithiol yn gwella hyder y cyhoedd mewn plismona.

Yn 2024/25, dywedodd 30% o'r holl ymatebwyr wrthym eu bod yn credu bod IOPC yn effeithiol yn gwella hyder y cyhoedd mewn plismona, cynnydd o ddeg pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn rhannu fel a ganlyn: 30% o ymatebwyr plismona, 33% o ymatebwyr atebolrwydd yr heddlu, 26% o ymatebwyr tu hwnt i blismona. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd ar draws y tri grŵp, yn enwedig ymatebwyr tu hwnt i blismona, lle mae eu canran wedi dyblu o gymharu â llynedd.

Canran yr ymatebwyr sy'n credu bydd IOPC yn helpu i wella plismona drwy nodi ffyrdd y gall yr heddlu ddysgu o waith IOPC.

Dywedodd 49% o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn credu bydd IOPC yn helpu i wella plismona trwy nodi ffyrdd y gallai'r heddlu ddysgu o'n gwaith.

Uwch-gwyn ynglŷn ag ymateb yr heddlu i stelcio

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaeth Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh uwch-gwyn ynglŷn ag ymateb yr heddlu i stelcio ar ran y Consortiwm Stelcio Cenedlaethol.

Nod y system uwch-gwynion yw nodi a mynd i'r afael â materion eang neu systemig mewn plismona. Dim ond sefydliadau sydd wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Cartref all wneud uwch-gwynion – mae hyn yn cynnwys Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh.

Arweiniodd IOPC ymchwiliad ar y cyd i'r gwyn hon gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a'r Coleg Plismona.

Ym mis Medi 2024 cyhoeddodd ein adroddiad ymchwiliad ar y cyd, gan wneud 29 o argymhellion i sicrhau gwell gefnogaeth ar gyfer dioddefwyr.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- amlinellu camau y dylai prif gwnstablaid eu cymryd i wella ansawdd ymchwiliadau stelcio
- newid y gyfraith droseddol ar stelcio
- gwneud gorchmynion amddiffyn rhag stelcio yn symlach ac yn haws i'r heddlu eu defnyddio
- sicrhau bod yr heddlu a gwasanaethau cymorth yn cydweithio'n agosach i wella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr

Gellir ffeindio'r [adroddiad uwch-gwyn llawn yma](#) ac ym mis Ionawr 2025, croesawon ni [ymatebion i'n argymhellion](#).

Gallwch ddarllen mwy am stelcio yn [rhifyn 45 o'n cylchgrawn Dysgu'r Gwersi](#).

Ein ymrwymïadau i'r iaith Gymraeg

Mae gan IOPC ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg fel y'u gosodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae ein Adroddiad Blyneddol Cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg 2024/25 eisoes wedi'i gyhoeddi ac mae [ar gael ar ein gwefan](#).

Defnyddio ein llinell adrodd

Rydym yn gweithredu llinell adrodd ar gyfer swyddogion a staff heddlu presennol a gorffennol i adrodd pryderon am gamymddwyn yn eu gweithle. Mae ar gyfer sefyllfaoedd lle mae achos o gamymddwyn yn datgelu, neu'n awgrymu, bod trosedd wedi'i gyflawni, neu lle mae tystiolaeth o ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau gweithdrefnau disgyblu. Mae'r Coleg Plismona hefyd yn cynhyrchu canllawiau ar adrodd pryderon.

Yn 2024/25 cysylltwyd â'n llinell adrodd 130 o weithiau o'i gymharu â 147 o weithiau yn ystod 2023/24. Roedd mwyafrif y pryderon a godwyd naill ai ynghylch llygredd, gwahaniaethu, neu fethiant yr Adran Safonau Proffesiynol (PSD) i ymchwilio i gwyn. Mae gennym amryw o opsiynau ar gyfer delio â galwadau i'n llinell adrodd. Mae'r camau byddwn yn cymryd yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryderon a godwyd, ond rhaid i ni gael caniatâd y galwr cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth i lu heddlu.

Pan fydd rhywun yn cysylltu â'n llinell adrodd, rydym yn asesu'r wybodaeth mae nhw'n ei ddarparu. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau a dderbyniom yn 2024/25 yn addas i'r llu heddlu perthnasol eu trin.

Datgeliadau er budd y cyhoedd

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth am ddatgeliadau cymwys. Mae datgeliad cymwys yn disgrifio sefyllfa lle mae swyddog heddlu neu aelod o staff yn trosglwyddo gwybodaeth maent yn credu sydd er budd y cyhoedd, bod swyddog heddlu neu aelod o staff arall yn gwneud, neu'n debygol o wneud, rhywbeth o'i le neu'n droseddol. Gallwch [ddarllen mwy am ddatgeliadau cymwys yma](#).

Mae'r wybodaeth ar gyfer 2024/25 [ar gael ar ein gwefan](#).

Amcan: perfformiad

Sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni

1. Arweinyddiaeth yn unol â'n gwerthoedd gyda chynllun clir ar gyfer y dyfodol.
2. Lle gwyh i weithio i'n pobl.
3. Datblygu galluoedd ar gyfer y dyfodol i alluogi perfformiad uchel.
4. Defnydd deallus o wybodaeth a data.
5. Defnydd cost-effeithiol a chynaliadwy o adnoddau.

Mesur cynnydd yn erbyn ein hamcanion

Roedden ni'n anelu at:

Ymdrechu i gyflawni sgôr ymgysylltu arolwg staff o 67% o leiaf.

Caiff sgoriau arolwg staff eu cynhyrchu bob 18 mis pan gyhoeddir yr arolwg staff. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf rhwng 6 Mai a 6 Mehefin 2025: er nad yw hyn o fewn y flwyddyn ariannol mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu, fe'i cynhaliwyd, bydd staff wedi bod yn myfyrio ar y flwyddyn 2024/25 wrth gwblhau'r arolwg.

Cofnododd yr arolwg staff diweddaraf sgôr ymgysylltu o 54%, gostyngiad o saith pwynt canran o'i gymharu ag arolwg 2023.

Cyfrifir y sgôr ymgysylltiad gweithwyr o bum cwestiwn am sut mae staff yn teimlo am weithio ar gyfer IOPC. Gostyngodd y sgôr ar gyfer pob cwestiwn o'i gymharu ag arolwg 2023, er bod perthnasoedd o fewn timau a chyda rheolwyr llinell wedi cael sgôr uchel iawn. Gwellodd y sgoriau ar welededd arweinyddiaeth gan y Bwrdd Rheoli ac mae mwy o gydweithwyr yn credu bod y bwrdd yn eglur ynghylch y weledigaeth ar gyfer IOPC.

Dros haf 2025 mae uwch arweinwyr wedi casglu adborth o'u meysydd i lywio cwmpas a blaenoriaethau'r prosiect 'Trawsnewid Profiad ein Pobl', elfen o'n rhaglen drawsnewid ehangach.

Ymdrechu i gyflawni sgôr arolwg staff o o leiaf 93% o'n pobl sy'n credu bod ganddyn nhw'r sgiliau sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn arolwg staff 2025.

Anelu at gyflawni cynrychiolaeth o 20% o staff Du, Asiaidd neu o gefndir ethnig lleiafrifol, fel bod ein gweithlu yn fwy cynrychioliadol o boblogaeth y DU.

Eleni fe wnaethon ni gyflawni canlyniad o 18.9% sydd ychydig islaw'r darged. Fodd bynnag, mae hyn yn gynydd o dros ddau bwynt canran o'i gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol sef 16.6%.

Anelu at gyflawni cyfradd absenoldeb salwch gyfartalog o wyth diwrnod neu lai, fesul gweithiwr.

Eleni gwnaethon ni ragori ar y darged gyda chanlyniad o golli 6.12 diwrnod gwaith fesul gweithiwr. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â chanlyniad llynedd o 7.64.

Mae mentrau llesiant sylweddol wedi cael eu lansio drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyno cynlluniau arian iechyd a sesiynau gwirio llesiant. Mae'r ddau fenter wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn. Mae rhagor o wybodaeth am fentrau llesiant staff ar gael ar dudalen 93.

(Rydym wedi diwygio ein ffigur absenoldeb salwch ar gyfer 2023/24, er mwyn ei wneud yn uniongyrchol gymharol â'r ffordd y gwnaethom gofnodi absenoldeb yn 2024/25.) Addaswyd y dull i adlewyrchu salwch a gofnodwyd yn ôl-weithredol gan reolwyr yn well.)

Ymdrechu i gyflawni cyfradd trosiant staff gwirfoddol o 15% neu lai.

Gyda chanlyniad o 10.71% rydym wedi rhagori'n gyfforddus ar y darged o 15%.

Ymdrechu i gyflawni sgôr arolwg staff o o leiaf 70% o'n pobl sy'n credu bod ein harweinyddiaeth (aelodau o'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth Gorfforaethol) yn gyson â'n gwerthoedd.

Yn yr arolwg staff, cytunodd 27% o'r ymatebwyr fod cyfarwyddwyr IOPC yn dangos ymddygiadau sy'n gyson â gwerthoedd IOPC. Cytunodd chwe deg pedwar y cant o'r ymatebwyr fod uwch-arweinwyr yn eu maes gwaith

uniongyrchol yn byw ac yn arddangos gwerthoedd IOPC, cynnydd o 17 pwynt ar yr arolwg blaenorol.

Fel rhan o'n rhaglen drawsnewid gyffredinol, bydd prosiect 'Trawsnewid Profiad Ein Pobl' yn mynd i'r afael â meysydd gwella a nodwyd yn ein harolwg staff.

Cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.

Roedd IOPC o dan y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 - am fanylion pellach gweler yr adolygiad ariannol ar dudalen 17.

Ein pobl

Llesiant

Ein nod yw creu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi llesiant staff, lle mae staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i siarad am sut mae nhw'n teimlo ac i ofyn am help.

Rydym yn darparu ystod o gefnogaeth ar gyfer llesiant seicolegol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol cydweithwyr ac yn annog staff yn gryf i gael mynediad at a manteisio ar y gefnogaeth a'r mentrau sydd ar gael. Mae hyn i gyd yn ffurfio ein strategaeth llesiant - sy'n dwyn ynghyd mentrau presennol a newydd i wneud y mwyaf o iechyd a llesiant ein staff.

Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom lansio budd staff newydd: y cynllun arian 'Health4All', a gyflenwir gan BHSF, darparwr gofal iechyd trydydd parti. Mae hyn yn gynllun lle gall deiliaid polisi hawlio llawer o gostau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ôl (megis sbectol, triniaeth ddeintyddol neu ffisiotherapi) a chael mynediad at rai gwasanaethau sy'n gysylltiedig â iechyd (megis gwasanaeth meddyg teulu ar-lein) am bremiymau misol. Mae'r cynllun wedi cael derbyniad da, ac rydym wedi cael adborth rhagorol gan gydweithwyr.

Oherwydd natur ein gwaith, mae llawer o staff IOPC yn profi deunyddiau a digwyddiadau gofidus a all fod yn drawmatig ac yn heriol. I gydnabod hyn ym mis Mehefin 2024, lansiwyd ein menter llesiant newydd i gefnogi staff sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â chynnwys sy'n peri gofid.

Mae cydweithwyr yn gallu cymryd rhan mewn 'gwiriad llesiant' un-i-un gyda seicotherapydd allanol (sydd â gwybodaeth arbenigol am drawma) tair gwaith y flwyddyn. Mae nhw'n gallu trafod beth bynnag mae nhw eisiau a dod ag unrhyw bryderon i'r sesiynau.

Mae'r fenter hon yn ychwanegol at ein Model Cymorth Gwydnwch Straen a Thrawma i Weithwyr (STREAM) a'n Rhaglen Cymorth i Weithwyr (PAM Assist) presennol.

Mae STREAM yn raglen gymorth rhwng cyfoedion sy'n cynnwys cydweithwyr hyfforddedig yn cefnogi staff i reoli straen a heriau bywyd a gwaith. Cynlluniwyd y system hon yn benodol ar ein cyfer ni, yn seiliedig ar y problemau sydd gennym. Gall unrhyw un gael mynediad at y gwasanaeth STREAM trwy gysylltu ag ymarferydd, trwy e-bost, neu trwy gael ei gyfeirio gan reolwr llinell.

Mae PAM Assist yn llinell gymorth gyfrinachol, rhad ac am ddim i bob aelod o staff, sydd ar gael 24/7. Mae galwadau'n cael eu hateb gan gwnselydd hyfforddedig ac mae gan alwyr fynediad at arbenigedd clinigol a phroffesiynol a chyfle i siarad am bob math o faterion gwaith a phersonol sy'n effeithio arnynt. Gall hyn gynnwys cyngor ar ddyledion, perthnasoedd, rheoli straen, cam-drin domestig, a phrofedigaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Drive

Yn 2024/25 gwnaethom ni ail-lansio proses Adolygu Perfformiad a Datblygiad IOPC, sy'n cynnwys amcan cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) gorfodol.

Urddas yn y gwaith

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom ni lansio hyfforddiant i ymgorffori ein polisi Urddas yn y Gwaith. Mae'r polisi hwn a'r hyfforddiant yn cynrychioli mesurau rhagweithiol i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Cwblhaodd yr holl staff ddysgu digidol a mynychodd yr holl reolwyr llinell sesiynau briffio i esbonio eu cyfrifoldebau.

Polisi a hyfforddiant EDI

Lansiom ni Bolisi EDI newydd sy'n amlinellu cyfrifoldebau'n glir ar bob lefel a lansiom hefyd hyfforddiant i reolwyr ar sut i wneud ac asesu addasiadau rhesymol.

Datblygu arweinyddiaeth

Fe wnaethon ni ddatblygu cynnig i ddarparu cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth cyson o ansawdd uchel i bob rheolwr. Cytunwyd ar y cynnig gan y Bwrdd Rheoli i'w ddechrau gweithredi ym mis Ebrill 2025, dros gyfnod o 18 mis.

Mae'r rhaglen 'Tyfu, Ysbrydoli, Arwain' ar gyfer datblygu ein rheolwyr i'w helpu i ddatblygu mewn i'r arweinwyr gorau nawr ac yn y dyfodol. Fe'i gynlluniwyd i roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau i reolwyr arwain trawsnewidiad IOPC: cynyddu gallu arweinyddiaeth, ysbrydoli a symud cydweithwyr i gyflawni a gwreiddio ffyrdd newydd o weithio i gyflawni ein huchelgeisiau newydd.

Datblygwyd a chymeradwywyd cynnig i greu Fforwm Arweinyddiaeth IOPC newydd, gyda ffocws ar sicrhau bod arweinwyr wedi'u cyfarparu i arwain trawsnewid. Mae'r Fforwm wedi'i symleiddio a disgwylir i arweinwyr gymryd camau gweithredu rhwng cyfarfodydd y fforwm sy'n datblygu rhaglen trawsnewid y sefydliad.

Fe wnaethon ni gwblhau'r gwaith i adnewyddu ein gwerthoedd a'n hymddygiadau a datblygu strategaeth a chynllun ymgysylltu i sicrhau bod y gwerthoedd wedi'u hymgorffori yn ein bywydau beunyddiol. Lansiwyd y gwerthoedd ym mis Ebrill 2025 ac maent yn cael eu plethu mewn i'r prosiectau datblygu arweinyddiaeth a Pobl eraill wrth i ni symud ymlaen.

Datblygu ymchwilwyr

Lansiwyd cam un y Rhaglen Proffesiynoli Ymchwiliadau (PIP) ym mis Hydref 2024. Mae'r cymhwyster hwn, sydd wedi'i drwyddedu gan y Coleg Plismona ond sy'n cael ei redeg gan IOPC, yn sicrhau bod ymchwilwyr yn cael eu hyfforddi i'r un safon â swyddogion heddlu. Bydd yn cymryd lle y cymhwyster presennol. Hyd yn hyn, mae'r ymgysylltiad wedi bod yn hynod gadarnhaol a'r cam nesaf yw lansio cam dau o'r PIP yn gynnar yn 2026, ar gyfer prif ymchwilwyr.

Lansiwyd rhaglen datblygu ACU hefyd, sy'n sicrhau bod yna lwybr datblygu gyrfa o fusnes craidd tuag at y rolau arbenigol hyn.

Datblygu staff

Lansiwyd rhaglen newydd gennym, Elevate!, i ddod â chyfleoedd dysgu a datblygu byw byr i staff, ar bynciau fel blinder empathi, gwydnwch a chroesawu newid. Fe wnaethon ni hefyd gefnogi rhaglenni ailstrwythuro trwy ddarparu hyfforddiant all-leoli.

Trwy gydol y flwyddyn adrodd, fe wnaethom ailddatblygu ein fframwaith perfformiad a datblygu, Drive, i gynnwys gwerthusiad blynyddol, a'i lansio ym mis Ebrill 2025. Mae'n orfodol bod yr holl staff yn cymryd rhan mewn sgysiau rheolaidd am eu perfformiad yn ogystal â'u datblygiad a'u lles.

Cwynion amdanom ni

Mae llawer o bobl sy'n rhyngweithio â ni yn delio â digwyddiadau llawn straen, sy'n golygu bod ein staff yn aml yn gweithredu mewn amgylchiadau anodd. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, rydym yn cydnabod bod pethau'n mynd o chwith weithiau. I reoli hyn, mae gennym weithdrefn gwyno.

Yn ystod 2024/25 cawsom gyfanswm o 575 o gwynion o'i gymharu â 332 o gwynion llynedd. Fe wnaethon ni ddelio â 303 o gwynion o fewn 20 diwrnod gwaith ac roedd ein hamser ymateb cyfartalog yn 13 diwrnod gwaith. Fe

wnaethom gadarnhau neu gadarnhau'n rhannol 109 o gwynion, gyda 40 o ymchwiliadau i gwynion yn dal yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae ein tîm Cwynion ac Adborth yn ymdrin â chwynion amdanom ni yn unol â'n [polisi Cwynion ac Adborth](#). Caiff cwynion am ein gwasanaeth eu hasesu o dan y polisi hwn a, lle bo'n briodol, eu hanfon ymlaen at y rheolwr(wyr) llinell perthnasol. Gofynnir i'r rheolwr adolygu'r gwyn ac ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

Pan rydym yn asesu bod cwyn yn ddigon difrifol, rydym yn ymchwilio iddi yn unol â'n Polisi Disgyblu a Diswyddo. Yna caiff y canlyniad ei adolygu gan yr uwch reolwr priodol sy'n penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf addas.

Lle byddwn yn nodi gwersi i'w dysgu o gwynion, rydym yn rhannu hyn yn fewnol i helpu i lunio a gwella ein gwasanaeth. Lle mae'r gwyn yn ymwneud â'n Safonau Gwasanaeth a gallwn wneud yn well, rydym yn gwneud cofnod ac yn cymryd camau priodol.

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (SID) a chyfarwyddwyr anweithredol (NEDs) o dan ein [Polisi gwneud cwynion am Gyfarwyddwr Cyffredinol IOPC, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol](#). Ar hyn o bryd, y Swyddog Llywodraethu sy'n rheoli'r cwynion hyn, sy'n cysylltu â'r person priodol i ddelio â'r gwyn, yn unol â'r polisi. Yn ystod 2024/25 derbynion dair cwyn o dan y polisi hwn, ac ni chafodd yr un ohonynt eu cadarnhau. Fe wnaethon ni ddelio â'r tri cwyn o fewn 20 diwrnod gwaith ac roedd ein hamser ymateb cyfartalog yn naw diwrnod gwaith.

Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn nodi effaith gyfredol IOPC ar yr amgylchedd, gan ystyried allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau a rheoli gwastraff, defnydd dŵr, a chaffael cynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn bodloni gofynion Canllawiau Adrodd Cynaliadwyedd Trysorlys EF 2024/25.

Nid oes cynllun gweithredu bioamrywiaeth gan nad yw hyn yn berthnasol i'n swyddogaethau ni. Nid yw adroddiad blynyddol Ymrwymïadau Gwyrddio'r Llywodraeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn datgelu ffigurau manwl ar gyfer IOPC ac felly nid ydym wedi gallu cysoni'r adroddiad blynyddol hwnnw â ffigurau'r cyfnod blaenorol a ddangosir isod. Fel corff hyd braich i'r Swyddfa Gartref, rydym wedi ein cynnwys yn y data allyriadau a luniwyd gan y Swyddfa Gartref.

Gweithio yn y swyddfa a newidiadau i fodel gweithio hybrid IOPC

Yn ystod y flwyddyn 2024/25, gwnaethom rai newidiadau i'n model gweithio hybrid ac mae'n ofynnol i staff fynychu'r swyddfa'n fwy rheolaidd nawr nag yn ystod 2023/24.

- Ym mis Medi 2024, fe wnaethom weithredu presenoldeb swyddfa o leiaf 20% ac mae hyn bellach wedi'i ymestyn i 40% o fis Ebrill 2025; mae hyn wedi arwain at gynnydd cyffredinol mewn meddiannaeth swyddfa ar draws ein hystâd ond nid yw wedi arwain at gynnydd sylweddol yn ein hallyriadau carbon o'i gymharu â 2023/24, yn bennaf oherwydd y prosiectau lleihau maint yr ystâd a gynhaliwyd gennym llynedd.

Yn 2023/24, gwnaeth amryw o ddigwyddiadau prydlesu ganiatáu inni leihau maint ein swyddfeydd yn Sale, Birmingham a Warrington ac rydym wedi gweld effaith hyn yn ein data cynaliadwyedd.

Rydym wedi parhau i adolygu a gwella cywirdeb y data cynaliadwyedd a ddarperir ar draws ein hystâd a byddem yn tynnu sylw at y canlynol:

- Gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm yr allyriadau o'i gymharu â'r llynedd, yn bennaf oherwydd gostyngiadau yn y defnydd o gyfleustodau swyddfa (h.y. dŵr, trydan a nwy)
- Gostyngiad yn ffigurau gwastraff, yn bennaf oherwydd cwblhau'r prosiectau adnewyddu swyddfeydd sylweddol (a'r gwarediadau cysylltiedig) yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae'r defnydd o ddŵr wedi lleihau oherwydd ôl troed llai ar yr ystâd - yn rhai o'n lleoliadau, codir tâl arnom ar ganran o feddiannaeth trwy dâl gwasanaeth y landlord, felly mae'r ganran hon o ailgodi tâl bellach wedi lleihau gan ein bod wedi gadael rhai gofodau.

- Mae cyfanswm y gwariant ar ynni a gwaredu gwastraff wedi cynyddu'n gyffredinol; mae costau trydan wedi lleihau gyda'r gostyngiad yn ôl troed ein swyddfa ond mae costau teithio ar draws y sefydliad wedi cynyddu oherwydd y cynnydd ehangach mewn costau teithio yn y farchnad a'r cynnydd yn amllder teithio staff sy'n gysylltiedig â busnes. Mae costau ailgylchu yn dangos gostyngiad oherwydd cwblhau prosiectau adnewyddu swyddfeydd yn ystod 2023/24.
- Er bod maint y papur a brynwyd wedi cynyddu ychydig, rydym hefyd wedi cynyddu'r gymhareb defnyddio o bapur wedi'i ailgylchu i bapur nad yw'n cael ei ailgylchu.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tCo2e)	2024/25	2023/24	2022/23
Cwmpas allyriadau gros 1	92	113	174
Cwmpas allyriadau gros 2	164	188	189
Cwmpas allyriadau gros 3	63	65	91
Cyfanswm yr allyriadau	319	366	454

Canllaw i fathau o allyriadau:

- Daw allyriadau Cwmpas 1 o ffynonellau sy'n eiddo i IOPC neu sy'n cael eu rheoli gennym, fel cerbydau a boeleri.
- Mae allyriadau Cwmpas 2 o'r ynni a ddefnyddir gan IOPC, ond a brynir gan gyflenwyr allanol, fel trydan.
- Mae allyriadau Cwmpas 3 yn ymwneud â dŵr a ddefnyddir, papur a brynir a theithio busnes swyddogol (yn cynnwys teithio awyr rhyngwladol sydd, o fewn IOPC, yn ddibwys).

Defnydd o nwy	2024/25	2023/24	2022/23
Oriau cilowat	246,603	324,176	348,929

Kilogramau o wastraff	2024/25	2023/24	2022/23
Wedi'i anfon i safle tirlenwi	47	98	0
Ailgylchu	21,857	25,812	18,409

Llosgi	304	544	673
Adfer Ynni Llosgi	4,258	8,791	5,890
Cyfanswm y gwastraff	26,466	35,245	24,972

Defnydd dŵr	2024/25	2023/24	2022/23
Metrau ciwbig a ddefnyddiwyd	2,898	3,602	2,781
Gwariant ar ddefnydd dŵr ⁴	£6,710	£18,508	£11,110
Gwariant ar ynni a gwaredu gwastraff	2024/25	2023/24	2022/23
Ynni a brynwyd, yn cynnwys teithio	£626,535	£579,261	£690,696
Costau tirlenwi	ddim yn berthnasol	ddim yn berthnasol	ddim yn berthnasol
Costau ailgylchu	£15,204	£23,253	£34,516
Costau llosgi	-	-	-

Nid oes gennym fynediad at gostau llosgi na thirlenwi, gan eu bod wedi'u cynnwys yn ffioedd gwasanaeth y landlordiaid.

Papur wedi'i brynu	2024/25	2023/24	2022/23
Blychau A4	134	138	68
Blychau A3	1	0	1

Canran y cerbydau sydd wedi'u categorio fel rhai allyriadau isel iawn	2024/25	2023/24	2022/23
Ceir fflyd	-	-	-

⁴ Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hail-ddatgan i adlewyrchu'n gywir biliau dŵr a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi adroddiadau blynyddol.

Ceir ar log	4%	3%	-
-------------	----	----	---

Prynwyd ein holl fflyd o geir cyn mis Mawrth 2021 ac felly nid ydynt yn bodloni'r safonau allyriadau isel iawn diweddaraf. Er bod 55% o'r ceir hyn yn hybrid, nid ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer allyriadau isel iawn. Trwy ein darparwr gwasanaeth, cynllun EcoPoint cerdyn tanwydd Allstar, mae coed yn cael eu plannu yn seiliedig ar y defnydd o danwydd. Yn 2024/25 rydym wedi gwrthbwyso 256,875 kilo o CO₂ trwy'r cynllun hwn.

Ymrwymïadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC)

Fel corff hyd braich i'r Swyddfa Gartref, mae IOPC wedi'i gynnwys yn adroddiadau allyriadau'r Swyddfa Gartref ond rydym yn parhau i werthuso ein perfformiad ein hunain yn erbyn targedau'r GGC ac yn gweithio tuag at gyflawni Sero Net erbyn 2050.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn llinell sylfaen 2017/18)	Perfformiad yn 2024/25	Sylwadau
Lliniaru newid hinsawdd – gweithio tuag at sero net ar gyfer 2050		
Cyflawni ymrwymiad fflyd y llywodraeth i 25% o fflyd ceir fod yn gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 31 Rhagfyr 2022 ac i 100% o fflyd ceir a faniau'r llywodraeth fod yn gwbl sero allyriadau wrth y bibell fwg erbyn 31 Rhagfyr 2027.	Heb ei gyflawni	Er bod 55% o'r holl fflyd yn gerbydau hybrid, nid oes gennym unrhyw gerbydau ULEV yn ein fflyd ar hyn o bryd, er ein bod yn parhau i adolygu cydymffurfiaeth â'r targed hwn wrth brynu ceir newydd.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn llinell sylfaen 2017/18)	Perfformiad yn 2024/25	Sylwadau
Lleihau allyriadau o hediadau busnes domestig gan o leiaf 30%.	Heb ei gyflawni	Roedd ein allyriadau wedi gostwng gan 14% (i 7,350 km). Ni wnaethom gyflawni'r darged o 30% yn erbyn y flwyddyn sylfaenol o 8,565 km, fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr hediadau rydym yn defnyddio yn parhau i fod yn isel (h.y. hediadau dychwelyd - 7 domestig a 2 Ewropeaidd; hediadau sengl - 4 domestig yn unig) Mae ein polisi teithio ar awyrennau wedi'i ddiweddarau i'w gwneud yn ofynnol i staff ystyried opsiynau carbon is fel dewis arall yn lle pob hediad a gynlluniwyd.
Lleihau gwastraff a hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau		
Lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan 15%.	Gostyngiad o 64% wedi'i gyflawni	
Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i lai na 5% o gyfanswm y gwastraff.	Wedi'i gyflawni	Mae 0.18% o'r holl wastraff wedi mynd i safleoedd tirlenwi. Mae hyn i gyd yn ymwneud â'n swyddfa yng Nghaerdydd ac mae rheolwyr safle'r landlord yn cynghori eu bod yn gweithio gyda'u cwmni rheoli gwastraff dan gontract i gyflawni dim gwastraff i safleoedd tirlenwi.
Cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu i o leiaf 70% o gyfanswm y gwastraff.	Wedi'i gyflawni	Cafodd 83% o'r holl wastraff ei ailgylchu.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn llinell sylfaen 2017/18)	Perfformiad yn 2024/25	Sylwadau
Cael gwared ar blastig un-tro defnyddwyr (SUP) o ystâd swyddfeydd y llywodraeth ganolog.	Heb ei gyflawni	Ailgyflwynwyd amryw o eitemau SUP i gyfleusterau gwaredu'r swyddfeydd yn ystod covid ac mae'r rhain yn dal i gael eu defnyddio.
Lleihau defnydd papur y llywodraeth gan o leiaf 50%.	Gostyngiad o 91% wedi'i gyflawni	
Lleihau ein defnydd o ddŵr		
Lleihau'r defnydd o ddŵr gan o leiaf 8%.	Gostyngiad o 90% wedi'i gyflawni	
Arall		
Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy.		Rydym yn parhau i gaffael y rhan fwyaf o'n cynnyrch a'n gwasanaethau drwy fframweithiau CCS y llywodraeth.
Adferiad natur - creu lle i blanhigion a bywyd gwyllt sy'n ffynnu.		O ystyried natur ein hystadau (gofod swyddfa mewnol yn bennaf), mae gennym gyfrifoldeb cyfyngedig am ofod allanol.
Addasu i newid hinsawdd.		Mae'r asesiad yn parhau.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn llinell sylfaen 2017/18)	Perfformiad yn 2024/25	Sylwadau
Lleihau effeithiau amgylcheddol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a digidol.		Rydym yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr trydydd parti trwy ein contractau masnachol i gyflawni targedau sero net y llywodraeth. Mae ein contractau gwaredu yn nodi bod rhaid ailgylchu gwastraff a bod rhaid adfer ac ailddefnyddio deunyddiau daear prin. Mae IOPC yn defnyddio Crown hosting (menter ar y cyd rhwng Swyddfa'r Cabinet a chanolfannau Data Ark) ar gyfer cynnal offer TGCh yn ffisegol ac yn gweithio gyda Microsoft ar gyfer cynnal cwmwl, lle mae gan y ddau ohonynt dargedau sero net maent yn gweithio tuag atynt. Rydym wedi bod yn adolygu'r dechnoleg sydd ar waith yn weithredol ac yn nodi arbedion drwy leihau atebion etifeddol. Mae IOPC wedi lleihau'r ôl troed ar y safle ac yn y cwmwl i helpu i gefnogi effeithiau amgylcheddol.
Targedau allyriadau adrannau unigol - Y Swyddfa Gartref		
Targed lleihau allyriadau cyffredinol: 44%.	Gostyngiad o 78% wedi'i gyflawni	
Targed lleihau allyriadau uniongyrchol: 25%.	Gostyngiad o 76% wedi'i gyflawni	

Nid yw IOPC yn caffael gwasanaethau arlwygo, er y gall staff fanteisio ar gyfleusterau arlwygo presennol ein landlordiaid, yn bennaf y bwyty yn ein swyddfa yn Canary Wharf.

Camau a gymerwyd yn ystod 2024/25 i wella perfformiad cynaliadwyedd IOPC

Fel rhan o'n gwaith Ystadau, rydym yn parhau i asesu ein swyddfeydd am gyfleoedd gwella posibl yn unol â Net Sero ac mae amrywiaeth o brosiectau adeiladu ar y gweill i wella effeithlonrwydd ein hadeiladau.

- Yn ein swyddfa yn Warrington rydym yn cwblhau'r gwaith gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) i ddisodli'r boeleri nwy gyda rhai mwy effeithlon o ran ynni ac yn parhau i uwchraddio goleuadau'r swyddfa, gan osod paneli LED newydd.
- Yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, rydym wedi cyfnewid goleuadau swyddfa gydag opsiwn LED mwy effeithlon o ran ynni.
- Yn ein swyddfa yn Canary Wharf, mae GPA yn arwain ar brosiectau amrywiol i edrych ar ffyrdd o leihau'r defnydd o drydan a nwy, gan gynnwys uwchraddiadau effeithlonrwydd i'r system Rheoli Adeiladau, cael gwared ar bob boeler dŵr poeth nwy a'u cyfnewid â phympiau gwres ffynhonnell aer trydan.
- Yn ein swyddfa yn Sale rydym yn gweithio gyda'n landlordiaid i wella Tystysgrif Perfformiad Ynni'r adeilad trwy gael gwared ar y boeler nwy a'r rheiddiaduron presennol a'u cyfnewid ag opsiwn trydanol mwy effeithlon o ran ynni.

Mae natur ein gwaith ymchwiliol yn golygu nad oes llawer o ddewis arall yn lle defnyddio cerbyd ac rydym yn gwybod eu bod yn cyfrannu at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn parhau i adolygu sut y gallwn leihau ein hallyriadau o geir fflyd a chyflwyno ceir EV i'n gweithrediadau teithio busnes.

Ein strategaeth ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn unol ag Ymrwymïadau Gwyrddio'r Llywodraeth (GGC) a byddwn yn parhau â'n hymdrechion i gyfyngu ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ein prif ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cynaliadwyedd yw cadw yn unol â Chanllawiau GGC ac adrodd ar y lefelau a osodwyd gan Ganllawiau Trysorlys EF. Ein nod yw cadw ein lefel o CO₂ a gynhyrchir fesul gweithiwr ar ei lefel bresennol neu ei lleihau.

Rydym wedi adolygu ein llywodraethant o'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Unedol, a sut maent yn cynllunio ac yn monitro ein Ymrwymïadau Gwyrddio Llywodraeth.

Mae ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd a newid hinsawdd bellach wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl un o'n Grwpiau Sicrwydd, sy'n adrodd yn ffurfiol i'n Bwrdd Rheoli.

Rydym hefyd wedi cynnwys cyfraniad at sero net ac effaith amgylcheddol ar fformat ein hachos busnes, gan sicrhau bod y materion hyn bob amser yn cael eu hystyried yn ystod unrhyw gymeradwyaethau buddsoddi.

Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) – Cyfnod 2

Mae IOPC o fewn cwmpas gofynion adrodd cam 2 y TCFD. Mae IOPC wedi cydymffurfio'n rhannol ag argymhellion a datgeliadau'r TCFD ynghylch:

- Llywodraethu – datgeliadau a argymhellir (a) a (b)
- Rheoli risg – datgeliadau a argymhellir (a), (b) ac (c)
- Metrigau a thargedau – datgeliadau a argymhellir (b)

Rydym yn cydnabod bod newid hinsawdd yn fater pwysig, ond nid ydym yn ystyried bod ganddo effaith strategol sylweddol ar ein sefydliad ar hyn o bryd. Felly, ni ystyrir bod newid hinsawdd yn brif risg o ran bygythiad sylweddol a diriaethol i sefydlogrwydd ariannol a gweithrediadau busnes y sefydliad, yn elfen sylweddol o brif risg arall neu'n cael ei ystyried yn berthnasol fel arall.

Mae ein Tîm Gweithredol yn ystyried risgiau hinsawdd ac amgylcheddol drwy ddatblygu ein proses cynllunio busnes a datblygu ein prosesau rheoli risg.

Mae ein Bwrdd Rheoli yn ystyried risg hinsawdd a materion amgylcheddol ar lefel strategol trwy ein proses rheoli risg strategol. Rydym wedi nodi bod angen cynnwys risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ein cofrestr risg yn 2025/26 a fydd yn galluogi'r bwrdd i ystyried yr effaith a'r mesurau lliniaru.

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol yw'r uwch noddwr sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth ac ystyriaeth o newid hinsawdd gan y Bwrdd Unedol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen mwy o waith i gryfhau prosesau priodol sy'n galluogi ein bwrdd i asesu risgiau ac effeithiau hinsawdd ar gyfer ein sefydliad yn y blynyddoedd i ddod. Hyd yn hyn, mae ein prosesau rheoli risg wedi canolbwyntio ar y risgiau ffisegol a'r risgiau trosglwyddo, ac nid ar unrhyw risgiau penodol i'r Llywodraeth eto. Nid ydym yn ystyried bod y rhain yn berthnasol i ni fel sefydliad ond byddwn yn ystyried y materion hyn ymhellach yn y dyfodol.

Rydym yn datgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr cwmpas 1, 2 a 3 a metrigau a thargedau a ddefnyddir yn ein hadroddiadau trwy'r broses GGC sydd wedi'u cynnwys yn adroddiadau'r Swyddfa Gartref. Wrth i ni adrodd ar ein metrigau

hinsawdd o dan GGC rydym wedi defnyddio hyn fel sail ar gyfer nodi ein prif risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Rachel Watson', with a stylized, flowing script.

Rachel Watson

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mis XX 2026

Adran 2:

Adroddiad atebolrwydd

Trosolwg

Mae'r adroddiad atebolrwydd yn nodi sut mae IOPC yn bodloni'r gofynion atebolrwydd i'r Senedd. Mae ganddo dair adran:

1. Adroddiad llywodraethiant corfforaethol sy'n egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu IOPC a sut mae rheini'n cefnogi cyflawniad amcanion IOPC.
2. Adroddiad taliadau a staff sy'n manylu ar gyflog a threuliau a pholisïau staff.
3. Adroddiad atebolrwydd seneddol ac archwilio sy'n cynnwys datgeliadau atebolrwydd seneddol a'r dystysgrif archwilio.

Adroddiad llywodraethiant corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Eglurir rôl y Bwrdd Unedol, y Pwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn y datganiad llywodraethu mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

Y Bwrdd Unedol

Dangosir aelodau'r Bwrdd Unedol yn ystod 2024/25 yn y tabl isod.

Enw	Teitl
Katherine Cashell	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol
Christine Elliott	Cyfarwyddwr Anweithredol
Suzanne Jacob ⁵	Cyfarwyddwr Anweithredol
Catherine Jervis ⁶	Cyfarwyddwr Anweithredol

⁵ Penodwyd Suzanne Jacob i'r Bwrdd Unedol ar 23 Mai 2024.

⁶ Diwrnod olaf gwasanaethu Catherine Jervis ar y Bwrdd Unedol oedd 6 Mai 2024.

Enw	Teitl
Rommel Moseley	Cyfarwyddwr Anweithredol
Julia Mulligan	Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Steve Noonan	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Ymchwiliadau, Goruchwyllo a Gwaith Achos
Clive Quantrill ⁷	Cyfarwyddwr Anweithredol
Rachel Watson ⁸	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Tom Whiting ⁹	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

Y Bwrdd Rheoli

Dangosir aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod 2024/25 yn y tabl canlynol.

Enw	Teitl
Olive Jones	Cyfarwyddwr, Pobl
Katherine Cashell	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol: Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol
David Cryer	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Dafydd Emery	Cynghorwr Cyffredinol
Steven Noonan	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol: Ymchwiliadau, Goruchwyllo a Gwaith Achos
Rachel Watson ¹⁰	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Tom Whiting	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

Cofrestr buddiannau

Mae cofrestr gyda manylion swyddi cyfarwyddwyr cwmni neu fuddiannau arwyddocaol eraill a ddelir gan aelodau'r Bwrdd Unedol a holl Gyfarwyddwyr IOPC ar gael ar ein gwefan ar www.policeconduct.gov.uk/publications/board-

⁷ Penodwyd Clive Quantrill i'r Bwrdd Unedol ar 23 Mai 2024.

⁸ Penodwyd Rachel Watson i'r Bwrdd Unedol ar 22 Ebrill 2024.

⁹ Diwrnod olaf gwasanaeth Tom Whiting ar y Bwrdd Unedol oedd 30 Mai 2024.

¹⁰ Penodwyd Rachel Watson i'r Bwrdd Rheoli ar 22 Ebrill 2024.

[and-director-register-interests-may-2025](#). Fel arall, gellir ei gael yn ysgrifenedig gan Swyddog Llywodraethiant IOPC yn 10 South Colonnade, Llundain, E14 4PU.

Colledion data personol a sicrwydd gwybodaeth

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth IOPC yn gyfrifol am reoli a gweithredu asedau yn unol â'n polisïau ac am sicrhau bod rheolaethau ar waith i reoli risgiau'n briodol. Mae digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data sy'n cynnwys colli, dwyn neu ddatgelu ein gwybodaeth yn amhriodol yn cael eu hymchwilio gan feysydd busnes. Caiff yr adroddiadau am ddigwyddiadau eu hadolygu gan y tîm diogelu data, sy'n penderfynu a ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Caiff yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ei friffio'n rheolaidd ar y materion hyn ac ar y risgiau mae angen mynd i'r afael â nhw trwy reolaethau ychwanegol.

Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad IOPC.

Ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun	2024/25	2023/24	2022/23	2021/22
Nifer wedi'i gwblhau	167	193	169	211
Wedi cyrraedd y dyddiad cau statudol	70%	81%	90%	85%

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol	2024/25	2023/24	2022/23	2021/22
Nifer y digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO	2	8	9	3
Camau rheoleiddio angenrheidiol	-	-	-	-

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

O dan baragraff 17(1) o Atodlen 2 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, mae'n ofynnol i IOPC baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurflen ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr materion IOPC ac o'u incwm a'u gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a'u llif arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol i:

- ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydysyniad y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- ddatgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol; a
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blyneddol a'r Cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blyneddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gartref wedi fy mhenodi i, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn Swyddog Cyfrifyddu IOPC.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau IOPC wedi'u nodi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilywyr IOPC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol nad yw'r archwilywyr yn



ymwybodol ohono.

Rachel Watson

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mis XX 2026

Datganiad Llywodraethiant

Mae'r Datganiad Llywodraethiant hwn yn ymwneud â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Cefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol (DG) IOPC ar 21^{ain} Mawrth 2024, a dechreuais yn y rôl ar 22^{ain} Ebrill 2024.

Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau a'r prosesau mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli trwyddynt. Mae'n galluogi'r Bwrdd Unedol fel y corff llywodraethu i gyflawni ei swyddogaethau statudol:

- cael trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu da a rheolaeth ariannol (i annog defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau)
- i bennu a hyrwyddo amcanion a gwerthoedd strategol IOPC
- i roi cefnogaeth a chynghor i mi fel y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth gyflawni fy swyddogaethau
- i fonitro ac adolygu cyflawniad y swyddogaethau o'r fath.

Mae'r fframwaith yn fy nghynorthwyo fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Unedol i baratoi strategaeth ar y cyd ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau priodol, a adolygir yn flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys Cod Ymarfer a baratowyd ar y cyd. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r berthynas rhwng fy rôl i a'r Bwrdd Unedol, sydd angen adlewyrchu'r egwyddor bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol i weithredu'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau.


Mae'r system llywodraethiant, rheolaeth fewnol a rheoli risg wedi'i gynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, dim ond sicrwydd uchel mae'n gallu darparu, yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r systemau a nodir yn y datganiad hwn wedi bod ar waith am y cyfnod dan sylw.

Rwy'n gweithredu yn unol â Rheolau Sefydlog IOPC, ac rwy'n atebol i Weinidogion ac i'r Senedd. Rwy'n cynnal cyfarfodydd gyda'r Ysgrifennydd Cartref neu'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân trwy gydol y flwyddyn. Mae effeithiolrwydd y sefydliad wedi cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Sefydlwyd cyfarfodydd Nawdd Uwch Dwyochrog gydag Uwch Noddwr y Swyddfa Gartref ac fe'u cynhaliwyd bob chwarter blwyddyn, a cynhaliwyd cyfarfodydd misol ar y cyd â'r Uned Nawdd a Thîm Polisi'r Swyddfa Gartref i drafod materion polisi, strategol, cyllidebol, gweithredol, a nawdd. Ni gaiff unrhyw faterion eu trafod os ydynt yn peri risg i annibyniaeth y sefydliad o ran gwneud penderfyniadau gweithredol.

Mae fframwaith rheoli mewnol y sefydliad yn seiliedig ar adolygu gwybodaeth rheoli rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae wedi'i gynllunio i reoli risgiau o ran cyflawni amcanion yn effeithlon ac yn economaidd.

Cefnogir y Bwrdd Unedol gan dri Pwyllgor, pob un dan gadeiryddiaeth cyfarwyddwr anweithredol (NED). Dangosir y strwythur Llywodraethu a oedd yn weithredol yn y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn yn ffigur 1 ac fe'i disgrifir yn ffigur 2.

Ffigur 1



Ffigur 2

Bwrdd Unedol

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
-----------	-------------	-----

Rachel Watson DG	Aelodau: Cyfarwyddwr Cyffredinol, pob Cyfarwyddwr Anweithredol (NEDs), Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Dirprwy Cyfarwyddwr Cyffredinol (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Yn bresennol: Cwnsler Cyffredinol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Grŵp y Swyddfa Breifat, Ysgrifennydd Llywodraethiant.	Mae'r Bwrdd Unedol yn gyfrifol am gytuno ar strategaethau a chynlluniau a phenderfynu ar ddyrannu adnoddau. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Unedol yn galluogi adolygiad rheolaidd o gynlluniau strategol ac adrodd yn erbyn eu cyflawniad. Mae'r Bwrdd Unedol hefyd yn adolygu'n rheolaidd yr heriau mewnol ac allanol sy'n wynebu'r sefydliad a sut orau fynd i'r afael â'r heriau hynny. Mae yna eitemau sefydlog ar ein perfformiad a'n sefyllfa ariannol.
-----------------------------	--	---

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Christine Elliot (NED)	Aelodau: 4 aelod o'r NED Christine Elliot (Cadeirydd), Rommel Moseley, Suzanne Jacob a Catherine Jervis (Cadeirydd cyfarfod Ebrill 2024). Yn bresennol: Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Cyllid, Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Archwilio Allanol (Azets) a Nawdd y Swyddfa Gartref (fel arsylwr). Cyfarwyddwyr a staff perthnasol eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Llywodraethiant.	Mae ARAC yn cefnogi'r sefydliad a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth a llywodraethiant, a sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar yr Adroddiad Blyneddol a'r Cyfrifon ar ran y Bwrdd Unedol.

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Christine Elliot (NED)	Aelodau: 4 aelod NED (Christine Elliot (Cadeirydd), Rommel Moseley, Julia Mulligan a Clive Quantrill). Yn bresennol: DG, Dirprwy DG Dros Dro (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwr, Pobl, un o Gyfarwyddwyr Ysgrifennydd Llywodraethiant Gweithrediadau.	Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cytuno ar ran y Bwrdd, ar y strategaeth cyflog a gwobrwyo a chylch gwaith cyflog blynyddol y staff ac yn cytuno ar gyflwyniad y cylch gwaith cyflog i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar gynigion y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch dyfarniadau datblygiad cyflog i bob Cyfarwyddwr ac yn gwneud argymhellion ar archwiliad cyflog cyfartal blynyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar y Strategaeth Pobl, materion lechyd a Diogelwch, effeithiolrwydd yr Arolwg Staff, unrhyw newidiadau a fyddai'n cael effaith fawr ar gynllunio'r gweithlu a chynlluniau i ddatblygu diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd.

Pwyllgor Ansawdd

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Rommel Moseley (NED)	Aelodau: 3 aelod NED (Rommel Moseley, Julia Mulligan a Suzanne Jacob), Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro. Yn bresennol: Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Rheolwr Gwella Ansawdd a Gwasanaeth, Swyddog Gwella Ansawdd a Gwasanaeth, Ysgrifennydd Preifat	Mae'r Pwyllgor Ansawdd yn darparu her annibynnol ac adeiladol ac yn nodi cyfleoedd i wella er mwyn helpu IOPC i roi ansawdd wrth wraidd popeth mae'n ei wneud, i oruchwyllo gwaith gweithredol a gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gwneud i'r safonau uchaf ac i adeiladu diwylliant sy'n cefnogi gwaith o ansawdd uchel.

Bwrdd Rheoli

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
-----------	-------------	-----

Rachel Watson DG	Aelodau: DG, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Pobl, Cwnsler Cyffredinol, a dau Gyfarwyddwr Gweithrediadau. Yn bresennol: Pennaeth Cyllid (misol, nid wythnosol), Pennaeth Cyfathrebu (wythnosol, nid misol), Pennaeth Datblygu Busnes a Phennaeth Grŵp Swyddfa Breifat.	Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gyflawniad gweithredol busnes y sefydliad. Mae'n cyfarfod yn ffurfiol bob mis gyda mwy o gyfarfodydd pwynt cyswllt yn wythnosol. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyllid, perfformiad, cynllunio busnes a risg, i lywio ei broses gwneud penderfyniadau.
------------------	--	--

Uchafbwyntiau gweithgareddau Pwyllgor y Bwrdd

Rôl y pwyllgorau yw cefnogi'r Bwrdd Unedol yn ei gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth a llywodraethiant. Cyflawnir hyn trwy adolygu a monitro'r sicrwydd a roddir dros y meysydd hyn a chadarnhau dibynadwyedd a chywirdeb y rhain. Mae'r meysydd a adolygwyd gan y pwyllgorau yn ystod y flwyddyn hyd yma yn cynnwys y canlynol:

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

- Adnoddau
- Cynllun Dirprwyo Ariannol
- Adroddiadau TGCh
- Twyll a Cholledion
- Hawliadau Sifil
- Cwynion am IOPC
- Adrodd ar risg gan gynnwys Strategol, Gwybodaeth a Newid Hinsawdd
- Diweddariadau Archwilio Mewnol a monitro Argymhellion
- Archwiliad Allanol
- Polisi Rheoli Risg

- Caffael
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Strategaeth Ystadau
- Strategaeth Ddigidol a Data
- Llywodraethiant Trawsnewid
- Diweddariad Gwybodaeth a Seiberddiogelwch

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

- Adolygiad Strwythur Rheolwyr Uwch
- Themau Strategaeth y Gweithlu
- Polisi a Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith
- Llywodraethiant Trawsnewid
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol Pobl
- Polisi EDI
- Adroddiad Blynyddol EDI
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch
- Diwylliant Sefydliadol
- Argymhellion Archwiliad Cyflogres
- Themâu Strategaeth Dysgu a Datblygu Arfaethedig
- Diweddariad Arolwg Staff
- Adroddiad Gwerthoedd ac Adnewyddu
- Tryloywder a Gwelededd y Bwrdd

Pwyllgor Ansawdd

- Trosolwg Ansawdd
- Sicrwydd Ansawdd Sefydliadol
- Diffiniad sefydliadol o ansawdd
- Diweddariadau Prosiect
- Llawlyfr Gweithrediadau
- Profiad a chyfranogiad Defnyddiwr Gwasanaeth

- Adolygiad Archwilio Dwfn: Gwahaniaethu
- Adroddiad Ansawdd Blynyddol
- Cylch Gwella Ansawdd
- Diffiniadau Trawsnewid ac Ansawdd

Perfformiad y Bwrdd

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, roedd agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gael cyn cyfarfodydd. Roedd y papurau’n darparu digon o wybodaeth a thystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn, gan gynnwys cyfeiriad at risg, ariannol, cyfreithiol, rhanddeiliaid allanol, ac unrhyw oblygiadau amrywiaeth a nodwyd.

Cynhaliwyd Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd, a fynychwyd gan y Bwrdd Unedol a hwylusydd allanol, ar 12 Mawrth. Roedd y meysydd allweddol a drafodwyd yn cynnwys blaenoriaethau, heriau a ffactorau sy'n sbarduno newid. Helpodd yr adolygiad i wella dealltwriaeth o'r sefydliad a'i gymhlethdod, yn ogystal â gwella perthnasoedd gweithio. Trafododd y Bwrdd beth y gellid ei wneud yn wahanol, megis gwella eu gwelededd ymhlith staff drwy raglen ymgysylltu a llunio sesiynau'r Bwrdd yn y dyfodol.

Ansawdd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd

Roedd cyfarfodydd Bwrdd IOPC yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau i gefnogi rhedeg y sefydliad a chyflawni ein hamcanion, megis perfformiad, adnoddau ac adrodd ar risg, ynghyd â diweddariadau gan is-bwyllgorau. Darparodd y swyddfa weithredol wasanaeth ysgrifenyddol cynhwysfawr i'r bwrdd a'i is-bwyllgorau i sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y bwrdd a'i weithgareddau. Darparwyd papurau bwrdd o ansawdd uchel i'r Bwrdd cyn pob cyfarfod i gynorthwyo gwneud penderfyniadau gwybodus.

Mae Ffigur 3 yn dangos presenoldeb Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Unedol a'r Pwyllgorau.

Ffigur 3 - Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd Unedol a'r Pwyllgor

	Rôl	Bwrdd Unedol	ARAC	PCC	Ansawdd
Rachel Watson	Cyfarwyddwr Cyffredinol o 22 Ebrill 2024	9/9	1/3*	2/2	1/1
Kathie Cashell	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros	10/10	3/3	6/6	3/3

	Dro, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Strategaeth, Ymgysylltu a Chyfathrebu) o Ionawr 2025				
Steve Noonan	Cyfarwyddwr Dros Dro, Gweithrediadau Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Ymchwiliadau, Goruchwyliaeth a Gwaith Achos) o Ionawr 2025	8/10			3/3
Amanda Rowe	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Cyfarwyddwr, Ymgysylltu o Ionawr 2025	5/6			
Tom Whiting	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, gadawodd IOPC 15 Mai 2024	1/1	1/1		
Olive Jones	Cyfarwyddwr Pobl			5/6	
Christine Elliott	NED	10/10	4/4	6/6	
Suzanne Jacob	NED	8/8	2/2		2/2
Catherine Jervis	NED	1/1	1/1		
Rommel Moseley	NED	8/10	2/2	5/6	3/3
Julia Mulligan	NED	8/10		5/6	2/3
Clive Quantrill	NED	7/8		3/4	

* Ymunodd y newydd-apwyntiedig Gyfarwyddwr Cyffredinol yng nghanol y cylch ARAC a gynlluniwyd ymlaen llaw ac yn wreiddiol dirprwyodd bresenoldeb i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol tra'n sefydlu yn y sefydliad. O fis Gorffennaf 2025 ymlaen, mae'r Gyfarwyddwr Cyffredinol bellach yn mynychu pob cyfarfod ARAC.

Mae Ffigur 3 yn manylu ar bresenoldeb yr aelodau. Mae'r ardaloedd llwyd yn dangos nad yw'r unigolyn a enwir yn aelod o'r pwyllgor a restrir, gallant fynychu yn eu rôl Weithredol.

Gwrthdaro buddiannau

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau IOPC yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff ddatgan unrhyw wrthdaro posibl wrth iddynt godi (mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn atebol i God Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet). Yn ogystal, mae staff ymchwiliadau wedi'u hatal rhag gweithio ar ymchwiliadau lle mae ganddynt fuddiannau blaenorol. Ystyrir bod ein Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gymesur â'r risg ganfyddedig i'n didueddrwydd.

Mae'n ofynnol i aelodau Bwrdd IOPC ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai ddylanwadu ar eu barn, neu y canfyddir eu bod yn gwneud hynny, wrth gyflawni eu dyletswyddau'n barhaus a chyn cyfarfodydd os yw'n briodol. Mae eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn gwneud darpariaeth er mwyn i fynychwyr ddatgan unrhyw fuddiannau o'r fath. Gwnaed datganiadau gan aelodau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gweithdrefnau hyn a chymerwyd camau priodol i reoli gwrthdaro buddiannau.

Mae'r gofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Unedol, y Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cymru, a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol wedi'i chyhoeddi ar-lein.

Llywodraethiant corfforaethol

Rwyf wedi adolygu'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol sydd ar waith ar gyfer adrannau llywodraeth canolog. Er ei fod wedi'i gyfeirio at adrannau gweinidogol yn hytrach na chyrff cyhoeddus anadrannol, mae'r Cod yn darparu arfer gorau ar drefniadau llywodraethiant corfforaethol. Lle ystyrir eu bod yn berthnasol, mae'r sefydliad wedi cydymffurfio ag egwyddorion y cod.

Mae arferion rheoli risg wedi cael eu hadolygu ac ystyrir eu bod yn cydymffurfio â gofynion pum egwyddor y Llyfr Oren, fodd bynnag mae gwaith yn parhau mewn rhai meysydd i wella ein harferion i gyd-fynd ymhellach â'r egwyddorion hyn.

Materion

Parhaodd y galw am a chymhlethdod ein gweithgaredd gweithredol i fod yn uchel trwy gydol 2024/25, gan gynnal pwysau sylweddol ar Weithrediadau. Mae atgyfeiriadau wedi sefydlogi trwy gydol y flwyddyn hon; fodd bynnag, maent yn dal i gyrraedd bron i 7,000 eleni. Mae'r norm newydd yn fwy na 550 o atgyfeiriadau fesul mis. Rhoddodd hyn bwysau sylweddol ar ein gallu i gadw nifer yr achosion o fewn y 260-280 yr oeddem yn anelu at eu cyflawni. Roedd cymhlethdod achosion a capasiti llai (gostyngiad yn nifer y staff o ganlyniad i rewi recriwtio cyn i mi ddechrau yn y swydd) yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein gallu i berfformio yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) heb ddigon o gapasiti i gyflawni ein dangosyddion perfformiad allweddol amseroldeb ymchwiliadau, adolygiadau, a MOI.

Roedd perfformiad ymchwiliadau islaw amseroldeb ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol 12 mis, gan gyflawni 71% ar ddiwedd y flwyddyn, a effeithiwyd ymhellach gan ffocws ar gau achosion hŷn er mwyn mynd â llai o'r rhain mewn i 25/26. Mae ein targed ar gyfer achosion a gwblhawyd o fewn 6 mis wedi gorffen y flwyddyn ar 32%, gan fethu'r dangosydd perfformiad allweddol o 33% gan drwch blewyn.

Cafodd cynnydd ar gwblhau adolygiadau a oedd yn lleihau'r ôl-groniad ac yn cynyddu cynhyrchiant ei rwystro gan nifer llai o staff. Er ein penderfyniad i ailgychwyn a chyflymu recriwtio, cymerodd hi rai misoedd cyn i staff allu dechrau yn eu swyddi a theimlo'n gwbl hyderus i fod yn gyfrifol am eu llwyth achosion eu hunain. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd effaith recriwtio yn cael ei theimlo'n gadarnhaol gyda thueddiad yn dod i'r amlwg o gau mwy o adolygiadau nag oedd yn cael eu derbyn gan leihau'r ôl-groniad cyn ein modelu. Rydym yn parhau i weithio gyda heddluoedd i geisio lleihau'r niferoedd a dderbynnir trwy ein menter 'lawn y Tro Cyntaf'. Mae nifer yr adolygiadau sy'n cael eu cadarnhau gan IOPC yn lleihau'n araf i 28% o 33%.

Mae buddsoddiad pellach wedi'i ymrwymo i'r Cynllun Alldroi Gweithrediadau Cenedlaethol (NOTP), ac mae adnoddau ychwanegol yn gwneud gwaith

pellach i gynyddu cynhyrchiant yn ôl i'r lefelau uchaf blaenorol a thu hwnt i leihau'r ôl-groniad ymhellach.

Mae ein prosiect Gwella Cyflawni Gweithredol (IOD), sydd bellach yn Brosiect Trawsnewid Ymchwiliadau (TIP), sy'n rhan sylweddol o'n rhaglen drawsnewidiadau ehangach, wedi cynyddu effeithlonrwydd eleni, sydd wedi helpu i atal pwysau ychwanegol pellach ar gyflawni ymchwiliadau, o ystyried y gostyngiad blaenorol yn niferoedd y staff. Parhaodd yr ennillion effeithlonrwydd hyn trwy gydol 24/25 a byddant yn cael eu cario ymlaen i 25/26 gyda rhaglenni gwaith pellach yn cael eu nodi a'u hategu gan newid dan arweiniad busnes.

Fe wnaethom adrodd yn flaenorol am heriau adnoddau mewn ymchwiliadau, yn enwedig yn Llundain a'r De-ddwyrain o ganlyniad i drosiant uchel. Yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio allanol, lleihaodd y problemau adnoddau hyn, ac rydym wedi cyflymu cychwyn y cohortau ymchwilio dan hyfforddiant. Mae tair carfan (o tua 20 o staff) wedi dechrau ers mis Hydref 2024. Mae hyn wedi dechrau sefydlogi perfformiad gweithredol wrth i'r staff hynny gael eu hyfforddi a dechrau ychwanegu capasiti. Fodd bynnag, mae cynnal y niferoedd ledled Llundain a'r De-ddwyrain yn parhau i fod yn her oherwydd cystadleuaeth uwch a'r amrywiad naturiol mewn staff y mae Llundain a'r De-ddwyrain yn ei brofi dros rannau eraill o'r wlad. Ers symud i'n strwythur newydd ar 20^{fed} Ionawr 2025 a gweithredu ein model cyflawni cenedlaethol, gellir niwtraleiddio'r heriau recriwtio a chadw hyn yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr i ryw raddau, fodd bynnag, er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol rhaid i ni gynnal y niferoedd staff ymchwilio gofynnol yn lleol.

Rydym yn cydnabod nad yw ein perfformiad yn y lle yr ydym yn disgwyl iddo fod, a dyna pam mae ein gwaith i wella perfformiad drwy ein Cynllun Adfer a'n rhaglen drawsnewid ar y gweill. Rydym yn optimistaidd ynghylch yr effaith bydd y model cyflawni cenedlaethol newydd yn cael ar amseroldeb, cysondeb ac ansawdd ein holl ymchwiliadau ac adolygiadau. Rydym yn rhagweld, erbyn diwedd y flwyddyn galendr nesaf, y byddwn yn dechrau teimlo effaith y trawsnewidiad, sydd yn ei gyfnod cynnar, a bydd perfformiad wedi sefydlogi ac yn dangos arwyddion o welliant.

Rydym yn parhau i gyflawni ein strategaeth mewn perthynas â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG); fodd bynnag, mae ein heriau o ran capasiti staffio wedi cyfyngu ar yr effaith a'r cynnydd y byddem wedi bod eisiau ei wneud yn y maes hwn trwy ymchwiliadau annibynnol yn unig. Mae gennym Uwch Noddwr penodedig ar lefel Cyfarwyddwr, sy'n cael ei gefnogi gan arweinwyr polisi VAWG ac rydym bellach wedi recriwtio Arweinydd Technegol VAWG i atgyfnerthu ein hymdrechion ymhellach. Mae tîm traws-swyddogaethol yn cefnogi ymateb y sefydliad i Ymchwiliad Angiolini, gan ein bod yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o achosion blaenorol i ddangos lle gall y system blismona wella.

Mae adolygiadau'r Llywodraeth o drefniadau atebolrwydd yn parhau i dynnu'n sylweddol o adnoddau i ymateb a gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae hyn yn parhau i mewn i 2025 wrth i ni weithio i weithredu a rhoi'r newidiadau hynny ar waith.

Fe wnaethom nodi gofyniad i adolygu'n barhaus a, lle mae angen, gwella ansawdd ein system Adnoddau Dynol ResourceLink. Fe wnaethon ni weithio'n galed yn ystod y flwyddyn i wella galluoedd y system. Fe wnaethon ni nodi'r bygythiad cynyddol o seiberdrosedd a chymryd camau i'w reoli trwy brofion diogelwch rheolaidd ac adolygu ein galluoedd yn erbyn canllawiau'r llywodraeth i ddiogelu data ac arfer gorau cydnabyddedig. Fe wnaethon ni ddod ar draws anawsterau yn ystod y flwyddyn wrth geisio cael biliau cywir gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) ar gyfer ein portffolio ystadau. Roedd camgyfrifiad sylweddol yn y biliau gan GPA yn 2023/24 a blynyddoedd blaenorol a gafodd ei gywiro yn 2024/25 ac a gyfrannodd at danwariant. Rydym yn parhau i weithio gyda'r GPA i wella cywirdeb y data hwn.

Cafodd datblygu talent a rheoli adnoddau eu heffeithio yn ystod y rhewi recriwtio, yn ogystal â'r gwaith trawsnewid, gan gynnwys yr adolygiad o uwch reolaeth. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu datrys trwy'r strwythur newydd, recriwtio i swyddi a phrosesau newydd a chynigion datblygu. Nid yw proffil amrywiaeth ein gweithlu cyffredinol yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU (fel y cyhoeddwyd yng Nghyfrifiad 2021) ac mae'n bwysig ein bod yn adolygu ein mesurau gweithredu cadarnhaol. Rydym wedi dechrau adolygu ein strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n harferion recriwtio i gefnogi ein gwaith yn y maes hwn. Mae trosiant staff dros y 12 mis diwethaf wedi parhau'n sefydlog ac o dan darged IOPC o 15%. Gan nodi hyn, y flwyddyn nesaf bydd ffocws ar weithio tuag at gynrychiolaeth well o'r boblogaeth yn ein carfannau staff.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflogwyd 16 o ymchwilwyr a 17 o hyfforddeion, a daethpwyd â naw ymchwilydd i mewn fel llafur dros dro tra roeddem yn recriwtio'n barhaol i lenwi swyddi gwag. Rydym wedi dechrau recriwtio carfannau o ymchwilwyr ar gyfer 2025/26 i gefnogi ein llinell dalent.

Nid yw ein cyflogau wedi symud gyda chyfraddau'r farchnad bob amser ac mae rhai meysydd yn parhau i fod yn anodd i'w llenwi. Roedd rhai swyddi yn ein swyddogaeth TGCh yn arbennig o heriol ac roedd y farchnad am gydweithwyr uwch ac arbenigwyr pwnc yn anodd iawn. Rydym yn rhagweld, gyda'r symudiad i fframwaith cyflog Digidol a Data (DDAT) y llywodraeth yn 2025/26, y dylai hyn fynd i'r afael â rhai o'r problemau o ran denu ymgeiswyr â chymwysterau addas.

Rydym wedi dechrau Rhaglen Trawsnewid sefydliadol gyda'r uchelgais o alluogi IOPC i ddod yn sefydliad perfformiad uchel. Mae gwaith ar hyn yn 24/25 wedi cael ei wneud tra rydym wedi parhau i ddelio â galw cynyddol ac mae effaith y rhewi recriwtio blaenorol wedi golygu bod gweithredu a gwreiddio rhai newidiadau wedi bod yn heriol mewn rhai meysydd. Bydd ymgysylltu effeithiol â staff yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen ac mae sicrhau bod gan staff y gallu i

wneud hyn ochr yn ochr â'r lefelau galw parhaus yn parhau i fod yn her ac mae'n debygol o barhau felly trwy gydol 25/26.

Rydym yn parhau i weithio tuag at gydymffurfio â'r gyfres o Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth. Fe wnaethom gynnal adolygiad cynnydd yn ystod y flwyddyn yn erbyn gofynion pob safon berthnasol i asesu ein lefel cydymffurfiaeth presennol a nodi lle mae angen i waith gydymffurfio â'r eitemau gorfodol.

Archwilio mewnol

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan y GIAA o dan Femorandwm o Ddealltwriaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Mae Archwilio Mewnol yn ein cynorthwyo i wella gweithdrefnau a rheolaethau yn barhaus. Cytunir ar gamau gweithredu mewn ymateb i argymhellion, a caiff y rhain eu dilyn i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith. Darparwyd adroddiad monitro ar weithredu argymhellion i holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd yma ac ymatebion ein rheolwyr.

Archwiliad	Canfyddiadau allweddol	Ymateb y rheolwyr
Rheolaethau Ariannol Allweddol	Canfuwyd arfer da a rheolaethau effeithiol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau treuliau, gwahanu dyletswyddau a nodi anomaledau yn y taliadau treuliau a wneir i staff. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran llif gwaith ar y feddalwedd treuliau newydd, prosesau sy'n ymwneud ag archebion gwestai a phrofion sicrwydd ail linell.	Gwnaed tri argymhelliad blaenoriaeth ganolig. Cafodd pob un eu derbyn ac maent bellach wedi'u cwblhau.
Ymunwyr a Gadawyr	Nodwyd meysydd allweddol o gryfder o fewn y prosesau presennol ar gyfer ymuno ac ymadael. Fodd bynnag, canfuwyd sawl gwendid trwy gydol y prosesau ymuno ac ymadael yn IOPC a arweiniodd at wneud naw argymhelliad.	Mae'r holl argymhellion wedi'u derbyn a'u cwblhau.

Archwiliad	Canfyddiadau allweddol	Ymateb y rheolwyr
Recriwtio a Fetio	Ar y cyfan, nodwyd meysydd o arfer da o fewn y prosesau recriwtio a fetio presennol. Fodd bynnag, canfuwyd sawl gwendid yn y prosesau recriwtio a fetio yn IOPC, mewn perthynas â dogfennaeth a darparu llwybr archwilio clir.	Gwnaed naw argymhelliad. Mae saith bellach wedi'u cwblhau gyda'r ddau sy'n weddill i'w cwblhau erbyn diwedd 2025/26.
Rhaglen Trawsnewid	Ar y cyfan, canfuwyd bod dyluniad y trefniadau llywodraethiant a rheoli risg yn ddigonol i gefnogi gweithrediad y Rhaglen Trawsnewid (TP). Mae angen rhai gwelliannau pellach a ddylai gryfhau'r prosesau sydd eisoes wedi'u datblygu gan y Rhaglen.	Cytunwyd ar bob un o'r saith argymhelliad ac maent bellach wedi'u cwblhau.
Sicrhau Ansawdd mewn Ymchwiliadau	Mae gwaith sylweddol ar y gweill i wella dealltwriaeth IOPC o ansawdd a gwella ymddygiadau diwylliannol o fewn y sefydliad. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan y tîm Gwella Safonau Ansawdd (QSI). Fodd bynnag, ar draws IOPC mae diffyg dealltwriaeth a diffiniad o rolau sicrhau ansawdd rheng gyntaf, prosesau a gofynion adrodd rheoli, sy'n tanseilio gweithrediad effeithiol o fframwaith gadarn sicrhau ansawdd.	Ni gyflwynwyd yr adroddiad terfynol i ARAC yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd yr un ar ddeg o argymhellion yn ffurfiol pan gyflwynwyd yr adroddiad i gyfarfod cyntaf ARAC yn 25/26.

Iechyd a diogelwch a llesiant

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i wella iechyd a diogelwch o fewn ein model gweithio hybrid. Rydym yn monitro presenoldeb yn ein swyddfeydd i sicrhau bod ein darpariaeth cymorth cyntaf a'n gweithdrefnau gwagio mewn achos tân yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y dychweliad gorfodol i'r swyddfa am ddau ddiwrnod yr wythnos.

Rydym yn cynnal archwiliadau o safleoedd i sicrhau bod darpariaethau ein swyddfa yn ffafriol i amgylchedd gwaith diogel ac iach ac yn cyrraedd

anghenion cydweithwyr. Rydym yn gweithio'n agos gyda landlordiaid, asiantau rheoli a chontractwyr i ymgymryd â'r gwaith adferol gofynnol mewn modd diogel ac effeithiol ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Rydym hefyd yn parhau i weithredu ein system rheoli iechyd a diogelwch gan gynnwys cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, adolygiadau o asesiadau risg, asesiadau DSE, dysgu gofynnol ar-lein a mewnbynnau hyfforddiant rhithiol, dogfennau canllaw, ymchwiliadau i ddamweiniau a chynnal gwiriadau diogelwch. Mae gwaith wedi'i wneud i wella diwylliant iechyd a diogelwch y sefydliad trwy gynyddu ymwybyddiaeth o risgiau iechyd a diogelwch allweddol, sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch ac annog ymgysylltiad â darpariaethau diogelwch. Mae ap diogelwch personol newydd hefyd wedi'i lansio i gynyddu'r ddarpariaeth diogelwch ar gyfer ein cydweithwyr sy'n wynebu'r cyhoedd.

Mae llesiant ein staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r sefydliad ac yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau. Mae wedi'i wreiddio yn y strategaeth Pobl, ac rydym yn parhau i ddarparu, hyrwyddo a thyfu ystod o adnoddau a mentrau llesiant i gefnogi staff gyda'u llesiant meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol, gan gynnwys rhaglen gymorth gan gymheiriaid.

Mae gweithdai llesiant wedi cael eu cynnal i wella hyddysgedd iechyd meddwl. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar straen, llosgi-allan a phresenoldeb sydd wedi bod yn anoddach i'w nodi gyda mwy o weithio o adref. Mae'r gweithdai hefyd yn anelu at leihau stigma, hyrwyddo ymgysylltiad rhagweithiol â'n darpariaethau llesiant, a meithrin diwylliant agored lle mae staff yn gyfforddus ac yn hyderus i gymryd rhan mewn sgysiau onest am lesiant. Mae gweithdai dilynol yn parhau i hyrwyddo hyddysgedd iechyd meddwl ac ymddygiadau llesiant, gyda ffocws ar reoli ymwneud â deunyddiau sy'n peri gofid, rôl hanfodol hunanofal, ac arwyddocâd creu diwylliant tîm sy'n ddiogel yn seicolegol i gefnogi a diogelu llesiant staff.

Mae cynnwys llesiant yn elfen bwysig o raglen hyfforddi ymchwilwyr a rhaglen hyfforddi rheolwyr llinell ac yn atgyfnerthu'r holl ddysgu llesiant a grybwyllwyd uchod.

Llwyddodd prosiect deunyddiau trallodus i gychwyn a dylanwadu ar arferion rhagweithiol ac ataliol ar draws y sefydliad i helpu amddiffyn staff rhag y risg bosib o drawma yn dilyn dod i gysylltiad â deunyddiau trallodus. Bellach, gall yr holl staff sydd wedi'u heffeithio ymgysylltu ag arbenigwr clinigol allanol yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i gefnogi eu llesiant.

Yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu â gweithwyr, lansiwyd cynllun arian parod iechyd sy'n rhoi cyfle i weithwyr adennill llawer o gostau sy'n gysylltiedig â iechyd a chael mynediad at rai gwasanaethau iechyd i gefnogi eu llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol.

Cynhaliwyd arolwg staff ym mis Mai 2025 i fesur barn cyfredol staff ar amrywiaeth eang o bynciau a nodi unrhyw feysydd posib ar gyfer gwella.

Effeithiolrwydd y Polisi Codi Pryderon

Codwyd pum pryder yn ystod y flwyddyn hyd yma, ac ymdriniwyd â phob un ohonynt a'u datrys yn unol â gofynion y polisi Codi Pryderon.

Taliadau diswyddo arbennig

Ym 2024/25 a 2025/26, gwnaeth IOPC daliadau o dan becynnau ymadael a chytundebau setliad gan gynnwys taliadau yn lle hysbysiad (PILON). O dan ganllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi, gall cytundebau setliadau a PILON ddod o fewn diffiniad 'taliadau diswyddo arbennig'.

Cyflwynodd IOPC achos busnes i'r Swyddfa Gartref i egluro sut oedd y canllawiau yn gymwys a, phan yn angenrheidiol, ceisio cymeradwyaeth ôl-weithredol gan y Swyddfa Gartref a Thrysorlys Ei Fawrhydi. Gwrthododd y Swyddfa Gartref gymeradwyo 4 taliad diswyddo arbennig yn ôl-weithredol yn 2024/25.

Bydd IOPC yn cryfhau ei brosesau i sicrhau bod unrhyw gymeradwyaethau sydd eu hangen yn cael eu hadnabod a'u ceisio ymlaen llaw ar gyfer achosion yn y dyfodol.

Mae manylion pellach wedi'u nodi yn yr adroddiad am Daliadau a staff ar dudalen **x** ac yn yr adroddiad Cyfrifoldeb seneddol ar dudalen **x**.

Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb personol am gynnal system gadarn o lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg i gefnogi cyflawni ein swyddogaethau o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a deddfwriaeth berthnasol arall, gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol.

Mae fy adolygiad wedi'i lywio'n rhannol gan waith ein harchwilwyr mewnol. Darparodd Pennaeth Archwilio Mewnol y datganiad canlynol yn eu barn blynyddol "Rwy'n darparu barn Gymedrol gyffredinol ar y fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth o fewn IOPC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a



rheolaeth.

Rachel Watson

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mis XX 2026

Adroddiad tâl a staff

Polisi tâl

Nod IOPC yw darparu pecynnau cyflog cystadleuol i recriwtio a chadw staff o safon briodol. Rydym yn gweithredu system graddau a gefnogir gan gynllun gwerthuso swyddi dadansoddol. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar gyfer unrhyw newidiadau i'n polisi cyflog neu'n cylch cyflog.

Rydym yn atebol i ganllawiau cyflog y Gwasanaeth Sifil a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF ac yn cyflwyno cylch cyflog blynyddol i'r Swyddfa Gartref, sydd o fewn y canllawiau hynny.

Mae tâl i gyfarwyddwyr ar gyfer y blynyddoedd cyfredol a blynyddoedd y dyfodol yn glynu wrth waith ac argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion.

Contractau gwasanaeth

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n penodi cyfarwyddwyr. Fel arfer nid oes gan eu contractau gyfnod penodol a gellir eu terfynu gyda hyd at dri mis o rybudd gan IOPC. Byddai diswyddo cyfarwyddwyr yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Tom Whiting oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro o 4 Rhagfyr 2022 tan 21 Ebrill 2024 ar argymhelliad Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

Ar 21 Mawrth 2024, penodwyd Rachel Watson yn Gyfarwyddwr Cyffredinol (DG) IOPC a dechreuodd y rôl ar 22 Ebrill 2024.

Data ymgysylltu staff

Nid yw IOPC yn gymwys i gymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Datblygwyd mesurau amgen i'w defnyddio o 2021/22. Cofnododd arolwg staff mewnol diweddaraf IOPC ym mis Mai 2025 sgôr ymgysylltu o 54%, 13 pwynt canran islaw ein targed ar gyfer 2024/25.

Pobl ag anableddau

Mae IOPC yn rhoi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl ag anableddau, lle mae natur y gyflogaeth yn gwneud hyn yn briodol. Rydym yn yr

un modd wedi ymrwymo i alluogi unrhyw aelodau staff a allai ddod yn anabl yn ystod eu cyfnod cyflogaeth i barhau yn eu rôl.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Pobl atebolrwydd am yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, dan arweiniad cyfarwyddwr anweithredol, yn darparu llywodraethiant ar gyfer perfformiad EDI, ac yn monitro ac yn herio data'r gweithlu.

Mae gennym chwe rhwydwaith staff. Mae pob un yn cael ei gefnogi gan uwch reolwr ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r rhwydweithiau'n canolbwyntio ar bob un o'r naw nodwedd warchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhwydweithiau'n ymwneud â phob agwedd ar ein busnes.

Mae ein gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gael ar ein gwefan.

Data trosiant staff

Yn ystod 2024/25 roedd canran y trosiant gwirfoddol yn 10.71% (2023/24: 7.9%), sydd o fewn ein targed o 15%. Mae'r data'n eithrio staff ar gontractau tymor penodol a rolau tymor byr eraill.

Data absenoldeb oherwydd salwch

Yn ystod 2024/25, treuliodd ein staff gyfartaledd o 6.12 diwrnod gwaith o absenoldeb salwch fesul gweithiwr, o'i gymharu â tharged o wyth diwrnod, a ffigur llynedd o 7.64. Rydym wedi ymrwymo i iechyd a llesiant ein staff ac mae polisi absenoldeb salwch cynhwysfawr ar waith. Rydym yn darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Rydym wedi diwygio ein ffigur absenoldeb salwch ar gyfer 2023/24, er mwyn ei wneud yn uniongyrchol gymharol â'r ffordd y gwnaethom gofnodi absenoldeb yn 2024/25. Addaswyd y dull i adlewyrchu'n well y diwrnodau salwch a gofnodwyd yn ôl-weithredol gan reolwyr.

Cyfansoddiad staff

Mae IOPC wedi ymrwymo i sicrhau bod pob cydweithiwr yn gallu cyrraedd ei botensial llawn yn y sefydliad. Rydym yn monitro amrywiaeth y sefydliad trwy ddata AD ac adborth gan ein Cyngor Staff a rhwydweithiau staff.

Mae'r tabl isod yn darparu cyfansoddiad staff yn ôl rhywedd ar 31 Mawrth 2025 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a ddangosir mewn cromfachau. Mae data arall ar gyfansoddiad staff ar gael ar ein gwefan.

Nifer y gweithwyr ar 31 Mawrth	Gwrywaidd	Benywaidd	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr*	8 (8)	11 (11)	19 (19)
Staff	352 (342)	638 (597)	990 (939)
Cyfanswm	360 (350)	649 (608)	1,009 (958)

**Mae Cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2025 yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, graddau eraill yr Uwch Wasanaeth Sifil a 5 cyfarwyddwr anweithredol.*

Iawndal am ymddeoliad cynnar neu golli swydd

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Dim (2023/24: dim).

Taliadau i gyfarwyddwyr blaenorol

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Dim (2023/24: dim).

Niferoedd staff uwch y gwasanaeth sifil fesul band ar 31 Mawrth

Band	2024/25	2023/24
SCS 3	1.0	1.0
SCS 2	2.0	3.0
SCS 1	11.0	11.0
Cyfanswm	14.0	15.0

Datgeliad cyflog teg

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Roedd y newid canrannol mewn perthynas â chyflog a lwfansau'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn gyfystyr â chynnydd o 12.3%. Yn y flwyddyn adrodd, y cyfarwyddwr IOPC â'r cyflog uchaf yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Rachel Watson. Roedd ei chyfanswm cyflog band cyfwerth ag amser llawn yn 2024/25 rhwng £180,000 a £185,000. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, y cyfarwyddwr IOPC â'r cyflog uchaf oedd y cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro Tom Whiting, ac roedd ei gyflog band cyfwerth ag amser llawn rhwng £160,000 a £165,000.

Yn y flwyddyn adrodd, y cyflog cyfartalog a gymerwyd mewn perthynas â gweithwyr IOPC oedd £43,614 (2023/24: £41,813), roedd hyn yn gynydd o 4.3%. Mae'r wybodaeth am gymhareb cyfanswm cyflog yn y tabl isod:

Band	2024/25	2023/24
Tâl ¹¹ a buddion y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf £	180-185	160-165
cyflog a buddion 25ain ganradd £	34,230	32,600
cymhareb y 25ain ganradd	5.3	5.0
Canradd canolrif cyflog a buddion £	39,198	40,075
Cymhareb ganolrifol	4.7	4.1
cyflog a buddion 75ain ganradd £	48,409	46,335
cymhareb y 75fed ganradd	3.8	3.5

Mae polisïau cyflog a gwobrwyo IOPC yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet, ac felly credwn fod y gymhareb ganolrifol ar gyfer y flwyddyn yn gyson â'r polisïau cyflog, gwobrwyo a chynnydd ar gyfer ein gweithwyr gyda'u gilydd. Mae'r cynnydd yn y cymarebau canradd o ganlyniad i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ennill mwy na'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro blaenorol.

Mae tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr anweithredol wedi'i bennu gan y Swyddfa Gartref. Mae cyflog staff, gan gynnwys graddau SCS, wedi'i

¹¹. Cyflog a lwfansau yn unig yw'r ffigurau a adroddir gan na thalwyd unrhyw fuddion i'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf nac i unrhyw weithwyr eraill.

gysylltu'n uniongyrchol ag ystodau gwerthuso swyddi. Mae cyflog cyfwerth ag amser llawn rhwng £20,000 a £182,500 (2023/24: £21,000 i £162,500).

Mae lwfans pwysoli Llundain o £4,968 (2022/23: £4,731) yn berthnasol i staff a phrentisiaid sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yn Llundain a Croydon. Nid oes gan ystodau cyflog bwyntiau cefn wedi'u halinio â nhw. Mae cyflogau wedi'u gosod ar gyfradd ar y pryd gyda datblygiad cyflog blynyddol yn cael ei bennu gan gynnydd canrannol a gytunir bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ystodau cyflog yn cael eu hailbrisio bob blwyddyn. Y dyddiad ailbrisio nesaf yw 1 Gorffennaf 2025.

Ni gafodd yr unigolyn â'r cyflog uchaf, na gweithwyr eraill IOPC, gyflog perfformiad na bonysau yn ystod y flwyddyn (2023-24: Dim).

Pecynnau ymadael

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Dangosir data cymharol mewn cromfachau ar gyfer 2023/24.

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiada u gorfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost
<£10,000	- (-)	2 (-)	2 (-)
£10,000 - £25,000	- (-)	9 (3)	9 (3)
£25,001 - £50,000	- (-)	8 (5)	8 (5)
£50,001 - £100,000	- (-)	4 (4)	4 (4)
£100,001 - £150,000	- (-)	5 (-)	5 (-)
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul math	- (-)	28 (12)	28 (12)
Cyfanswm cost adnoddau (2024/25) mewn £000	-	1,305	1,305
Cyfanswm cost adnoddau (2023/24) mewn £000	-	489	489

Mae costau diswyddo a chostau ymadael eraill wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan y Ddeddf Pensiwn 1972. Mae'r bwrdd uchod yn dangos cyfanswm costau ymadael a gytunwyd a'u cyfrifwyd amdanynt yn 2024-25 (caiff ffigyrau cymharol 2023-24 hefyd eu rhoi). **Talwyd £1.16m o gostau ymadael yn y flwyddyn (2023-24: £0.98m).** Lle mae IOPC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, mae'r costau ychwanegol yn cael eu talu gan IOPC ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol oherwydd afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Mae elfen o'r taliadau yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau yn lle rhybudd.

Niferoedd staff a chostau

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau tymor penodol, sydd fel arfer yn para 12 mis. Mae staff eraill yn cynnwys pobl sydd wedi cael eu secondio i'r sefydliad a llafur dros dro.

Nifer cyfartalog y staff (FTE)	2024/25	2023/24
Parhaol	920	990
Arall	3	1
Cyfanswm	923	991

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau tymor penodol, sydd fel arfer yn para 12 mis. Mae staff eraill yn cynnwys gweithwyr dros dro a staff sydd wedi cael eu secondio i'r sefydliad. Mae'r costau ar ôl adennilladau mewn perthynas â secondiadau allanol.

Costau staff £'000	2024/25 Staff parhaol	2024/25 Arall	2024/25 Cyfanswm	2023/24 Cyfanswm
Cyflogau ac enillion	41,824	364	42,188	42,759

Costau staff £'000	2024/25 Staff parhaol	2024/25 Arall	2024/25 Cyfanswm	2023/24 Cyfanswm
Cost nawdd cymdeithasol	4,488	-	4,488	4,552
Cyfraniadau pensiwn	11,096	-	11,096	10,707
Is-gyfanswm	57,408	364	57,772	58,018
Llai: adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(296)	-	(296)	(353)
Costau net yr holl staff eraill	57,112	364	57,476	57,665

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Mae gan IOPC broses gadarn ar gyfer rheoli gwariant ymgynghori a llafur wrth gefn, sy'n cydymffurfio â'r canllawiau a nodir gan y Swyddfa Gartref (Tîm Masnachol Gwasanaethau Proffesiynol). Lle mae'n berthnasol, cyflwynir gwybodaeth i Swyddfa'r Cabinet ar yr holl wariant ar wasanaethau ymgynghori a phroffesiynol ar neu uwchlaw'r trothwyon a bennir yn y canllawiau. Gwariwyd £210,000 ar ymgynghoriaeth yn ystod 2024/25 (2023/24: £180,000). Roedd y gwariant yn 2024/25 ar gyfer cyngor mewn perthynas â'n rhaglen Gwella'r Cyflawni Gweithredol.

Llafur wrth gefn

Mae IOPC yn cyflogi llafur wrth gefn yn unol â phroses reoli gadarn a osodwyd gan y Swyddfa Gartref. Cynyddodd y costau llafur wrth gefn yn 2024/25 oherwydd y defnydd o gyllid dros dro ar gyfer ymchwilwyr a allai effeithio ar gapasiti gweithredol ar unwaith.

Costau llafur wrth gefn	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Hillsborough	41	36
Cyfarwyddiaethau eraill	323	-

Cyfanswm	364	36
-----------------	------------	-----------

Ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres

Ni dalwyd yr un o gyfarwyddwyr IOPC trwy daliadau i gwmni cyfyngedig na thrydydd parti yn lle cyflog. Mae'r holl gyfarwyddwyr yn cael eu talu trwy gyflogres IOPC. Mae'r tablau hyn yn dangos nifer yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres am £245 neu fwy y dydd.

Ymgysylltiadau gan weithwyr tâl uchel oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2025, yn ennill £245 y dydd neu fwy.	Nifer
Mathau o ymgysylltiadau	
Ymgysylltiadau sydd wedi bodoli am lai nag un flwyddyn ar adeg yr adroddiad	8
Ymgysylltiadau sydd wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad	-
Ymgysylltiadau sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar adeg yr adroddiad	-
Ymgysylltiadau sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad	-
Ymgysylltiadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg yr adroddiad	1
Cyfanswm yr ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres	9

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 yn ennill £245 y dydd neu fwy.	Nifer
O'r rhain...	
Ddim yn atebol i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
Nifer wedi'i bennu fel o fewn cwmpas IR35	8
Nifer wedi'i bennu fel tu allan i gwmpas IR35	1
Nifer yr ymgysylltiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-

Ar gyfer unrhyw ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025	Nifer
Nifer yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	-
Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres sydd wedi cael eu hystyried yn "aelodau o'r bwrdd", a/neu, "uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol	15
O'r rhain: nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-
Nifer yr ymgysylltiadau lle'r oedd y statws yn destun dadl o dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
O'r rhain: nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-

Gwybodaeth amser cyfleuster undeb llafur

Tabl 1: swyddogion undeb perthnasol	Nifer
Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol	-

Tabl 2: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster Canran o amser	Nifer
0	-
1 – 50	15
51 – 99	-

100	-
-----	---

Tabl 3: canran y bil cyflog a wariwyd ar amser cyfleuster	£'000
Cyfanswm cost amser y cyfleuster	152
Cyfanswm y bil cyflog	57,408
Y ganran o gyfanswm y bil cyflog a wariwyd ar amser yn y cyfleuster	0.27%

Wedi'i gyfrifo fel: (cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ cyfanswm y bil cyflog) x 100

Tabl 4: gweithgareddau undebau llafur â thâl	£'000
Amser a dreulir ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl	-

Wedi'i gyfrifo fel: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl gan swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl) x 100.

Cyfanswm un ffigur tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer y flwyddyn adrodd 2024/25

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog¹²	Buddion mewn nwyddau¹³	Cyfanswm y Taliadau
	£'000	£'000	£'000
Catherine Jervis ¹⁴	0-5 (5-10)	-	0-5

¹² Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

¹³ Mae buddion mewn nwyddau yn ymwneud â theithio a threuliau a delir gan IOPC am deithio.

¹⁴ Diwrnod olaf gwasanaeth Catherine Jervis oedd 6 Mai 2024.

Christine Elliott	10-15	0.4	10-15
Clive Quantrill ¹⁵	0-5 (0-5)	1.4	5-10
Julia Mulligan	5-10	3.8	5-10
Rommel Moseley	5-10	0.1	5-10
Suzanne Jacob ¹⁶	5-10 (5-10)	0.6	5-10

Cyfanswm un ffigur tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer y flwyddyn adrodd 2023/24

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog ¹⁷	Buddion mewn nwyddau ¹⁸	Cyfanswm y Taliadau
	£'000	£'000	£'000
Catherine Jervis	5-10	-	5-10
Christine Elliott	10-15	0.5	10-15
Julia Mulligan	10-15	3.0	15-20
Rommel Moseley	5-10	0.1	5-10
William Matthews ¹⁹	5-10 (5-10)	-	5-10

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys i gael bonws na buddion pensiwn.

¹⁵ Penodwyd Clive Quantrill ar 23 Mai 2024.

¹⁶ Penodwyd Suzanne Jacob ar 23 Mai 2024.

¹⁷ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

¹⁸ Mae buddion mewn nwyddau yn ymwneud â theithio a threuliau a delir gan IOPC am deithio.

¹⁹ Diwrnod olaf gwasanaeth William Matthew ar y Bwrdd Unedol oedd 7 Chwefror 2024.

Cyfanswm un ffigur tâl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd 2024/25

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ²⁰	Bonws	Buddion pensiwn	Cyfanswm y Taliadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Robert Barnes ²¹	60-65 (90-95)	-	49	110-115
Katherine Cashell	145-150	-	57	200-205
David Cryer	115-120	-	45	160-165
Dafydd Emery	110-115	-	70	180-185
David Ford ²²	20-25 (105-110)	-	9	25-30
Olive Jones	100-105	-	40	140-145
Steve Noonan	120-125	-	49	170-175
Amanda Rowe	115-120	-	214	330-335
Rachel Watson ²³	170-175 (180-185)	-	42	210-215
Tom Whiting ²⁴	15-20 (145-150)	-	17	40-45

²⁰ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

²¹ Penodwyd Robert Barnes ar 01 Awst 2024.

²² Penodwyd David Ford ar 20 Ionawr 2025.

²³ Penodwyd Rachel Watson yn Gyfarwyddwr Cyffredinol ar 22 Ebrill 2024.

²⁴ Tom Whiting oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro tan 21 Ebrill 2024.

Cyfanswm un ffigur tâl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2023/24

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ²⁵	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm y Taliadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Miranda Biddle ²⁶	45-50 (115-120)	-	14	55-60
Elizabeth Booth ²⁷	55-60 (105-110)	-	21	75-80
Katherine Cashell	135-140	-	53	185-190
David Cryer ²⁸	5-10 (95-100)	-	3	10-15
Dafydd Emery	105-110	-	63	165-170
Olive Jones ²⁹	20-25 (95-100)	-	8	25-30
Steve Noonan	40-45 (105-110)	-	41	85-90
Amanda Rowe	120-125	-	(1)	115-120
Tom Whiting	160-165	-	57	215-220

²⁵ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.
²⁶ Gadawodd Miranda Biddle IOPC ar 28 Gorffennaf 2023.
²⁷ Gadawodd Elizabeth Booths IOPC ar 11 Hydref 2023.
²⁸ Ymunodd David Cryer â IOPC ar 4 Mawrth 2024.
²⁹ Ymunodd Olive Jones â IOPC ar 15 Ionawr 2024.

Cafodd Tom Whiting £0-£5,000 ar Fai 24 o ran ôl-dâl yn ei rôl dros dro.

Bonysau

Nid yw bonysau'n daladwy i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol nac unrhyw uwch reolwyr IOPC eraill.

Taliadau a wnaed i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil

Yn ystod 2024/25 ni wnaed unrhyw daliadau i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil. Nid oedd unrhyw daliadau yn 2023/24.

Buddion mewn nwyddau

Mae cyfarwyddwyr anweithredol ac uwch reolwyr yn teithio'n rheolaidd i wahanol swyddfeydd IOPC i gyflawni eu dyletswyddau. Lle, oherwydd natur y tasgau a gyflawnir ac amllder y teithio, ystyrir bod y rhain yn weithle parhaol, yna mae cost teithio yn fudd trethadwy mewn nwyddau. Bydd hyn yn cynnwys treth ar gost teithio.

Buddion pensiwn

Mae rhai cyn-gomisiynwyr a staff a wasanaethodd fel aelodau o'r Awdurdod Cwynion Heddlu (PCA) yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn 'yn fras drwy analogaeth' (BBA) fel dewis arall yn lle aelodaeth o gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae IOPC yn gyfrifol am ariannu buddion pensiwn yn y dyfodol. Disgrifir y rhain ymhellach yn Nodyn 3.1 o'r Datganiadau Ariannol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a'r holl staff yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn y Prif Wasanaeth Sifil. Mae'r tablau isod yn rhoi manylion am y buddion pensiwn ar gyfer uwch reolwyr.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**. Mae hyn yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfu gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen ymunodd yr holl weision sifil newydd-benodedig a'r rhan fwyaf o'r rhai sydd eisoes yn gwasanaethu ag **alpha**. Cyn hyn, roedd gweision sifil yn cymryd rhan

ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **glasurol a mwy**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu gyda chost y buddion yn cael ei dalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alpha** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn deng mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng deng mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alffa rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, efallai y bydd aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn gymwys i gael buddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – yn ôl yr hyn sy'n berthnasol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniadau diffiniedig (pryniad arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae swm cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer **premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **clasurol**, nid oes swm cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **clasurol a mwy** yn hybrid, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn y cynllun **clasurol** a buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **premiwm**. Yn **nuvos**, mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn enilledig yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth cynyddu pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cronni mewn ffordd

debyg i **nuvos**, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am swm cyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan y *Ddeddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond lle maen nhw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd-daliadau risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn y gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae'r aelod â hawl i'w dderbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd neu'n hŷn na oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 i aelodau **clasurol**, **premiwm a chlasurol a mwy**, 65 i aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – yn ôl yr hyn sy'n berthnasol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar [wefan Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil](#).

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd yn actiwaraid o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a werthir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall, y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Mae CETVau yn cael eu cyfrifo yn unol â

Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023 a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24 a 2024-25.

Cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau gwerthuso marchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwr	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/25 £'000	Cynnydd go iawn mewn pensiwn ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31 Mawrth 2025 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2024 £'000	Cynnydd go iawn yn CETV £'000
Rob Barnes	40-45	2.5-5	782	731	40
Katherine Cashell	40-45	2.5-5	639	548	36
David Cryer	0-5	2.5-5	44	3	32
Dafydd Emery	40-45	2.5-5	796	709	52
David Ford	20-25	0-2.5	284	278	5
Olive Jones	0-5	0-2.5	48	8	32
Steven Noonan	25-30	2.5-5	388	321	32

Amanda Rowe	60-65 Swm cyfandaliad (160-165)	10-12.5 Swm cyfandaliad (20-22.5)	1,436	1,175	210
Rachel Watson	55-60 Swm cyfandaliad (145-150)	2.5-5 Swm cyfandaliad (0)	1,212	1,142	21
Tom Whiting	20-25	0-2.5	280	255	10

Mae buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan y Dull Rheoli Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Dull Rhwymedi ar gyfer Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu rholio'n ôl i'r cynllun etifeddiaeth perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwymedi a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl yn weithredol ar ymddeoliad i benderfynu yn lle hynny dderbyn buddion a gyfrifir o dan delerau cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

Adroddiad atebolrwydd seneddol

Archwilwyr

Darperir trefniadau ar gyfer archwilio allanol o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 2 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad cyfrifon, sy'n cael ei gyflwyno i'r naill Dŷ Seneddol gan yr Ysgrifennydd Cartref. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) sy'n cynnal yr archwiliad ar ran y C&AG.

Y ffioedd am y gwasanaethau hyn ar gyfer 2024/25 yw £105,000. Yn 2023/24 y ffi archwilio oedd £75,700. Ni wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw waith nad yw'n waith archwilio.

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol o dan gontract gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Nid oes unrhyw broblemau rheoleidd-dra i'w hadrodd.

Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Yn 2024/25 mae colledion a thaliadau arbennig islaw'r trothwy adrodd.

(2023/24: £353,000)

Taliadau diswyddo arbennig

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Yn 2024/25 gwnaeth IOPC 4 taliad dan gytundebau setlo gan gynnwys taliadau di-gytundebol yn lle hysbysiad (PILON). O dan arweiniad Trysorlys Ei Fawrhydi efallai y bydd y taliadau hyn yn disgyn o fewn diffiniad 'taliadau diswyddo arbennig' ac felly angen cymeradwyaeth gan Drysorlys Ei Fawrhydi o flaen llaw.

Gwnaeth IOPC 4 taliad diswyddo arbennig oedd yn gyfanswm o £32,427 (2023/24: dim), ond gwrthododd y Swyddfa Gartref y gais i gymeradwyo'r cytundebau setlo hyn yn ôl-weithredol. Y taliad uchaf oedd £13,063 (2023/24: dim), y taliad isaf oedd £3,199 (2023/24: dim) a'r taliad canolrifol oedd £8,083 (2023/24: dim). Darperir mwy o wybodaeth yn y datganiad llywodraethiant sy'n dechrau ar dudalen 86.

Anrhegion

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Ni roddwyd unrhyw anrhegion. (2023/24: dim.)

Ffioedd a thaliadau

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Derbyniodd IOPC incwm gan Gyllid a Thollau EF am waith ar atgyfeiriadau a wnaed o dan adran 28 o Ddeddf Comisiynwyr Refeniw a Thollau 2005. Derbyniwyd incwm gan Orfodaeth Mewnfudo am waith a wnaed i adolygu atgyfeiriadau priodol. Amcan ariannol IOPC ar gyfer incwm gan gyrff llywodraeth eraill yw adennill costau llawn yn unol â Chanllaw Ffioedd a Thaliadau'r Trysorlys. Cyflawnwyd yr amcan ariannol hwn ar gyfanswm incwm o £92,000 yn 2024/25. (2023/24: £74,000)

Rhwymedigaethau amodol o bell

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Nid oes gan IOPC unrhyw rwymedigaethau amodol pell yn 2024/25, (2023/24:



£214,000).

Rachel Watson

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mis XX 2026

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

[Bydd y dudalen hon yn cael ei darparu gan Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, unwaith y bydd y broses archwilio wedi'i chwblhau. Wedi caniatáu 7 tudalen, fel y flwyddyn flaenorol.]

Dalwyd ar gyfer TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC
ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

Dalwyd ar gyfer TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC
ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

Dalwyd ar gyfer TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC
ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

Dalwyd ar gyfer TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC
ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

Dalwyd ar gyfer TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC
ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

Dalwyd ar gyfer TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC
ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDD

Adran 3:

Datganiadau ariannol

Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	Nodyn	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid		92	74
Cyfanswm yr incwm gweithredu		92	74
Costau staff	4	(57,476)	(57,665)
Prynu nwyddau a gwasanaethau	4	(12,074)	(13,360)
Treuliau dibrisiant ac amorteiddio	4	(3,819)	(4,984)
Elw/(colled) ar waredu asedau anghyfredol	4	9	(199)
Darpariaeth (treuliau)/gwrthdroadau a threuliau eraill nad ydynt yn arian parod	4	(84)	1,114
Cyfanswm y gwariant gweithredu		(73,444)	(75,094)
Gwariant net am y flwyddyn		(73,352)	(75,020)
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net			
Colled actiwaraid ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	3.1	(34)	(4)
Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(73,386)	(75,024)

Mae'r holl incwm a gwariant a adroddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn deillio o weithrediadau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 129 i 151 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025	Nodyn	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2024 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	5	2,903	4,058
Asedau anniriaethol	6	4,821	4,448
Asedau hawl defnyddio	12	9,937	10,882
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		17,661	19,388
Asedau cyfredol			
Derbyniadau masnach a derbyniadau eraill	9	1,485	1,380
Arian parod ac arian cyfatebol	8	4,410	8,293
Cyfanswm yr asedau cyfredol		5,895	9,673
Cyfanswm yr asedau		23,556	29,061
Rhwymedigaethau cyfredol			
Darpariaethau	11	(591)	(198)
Rhwymedigaethau prydles	12	(1,272)	(1,788)
Masnach a thaliadau eraill	10	(7,704)	(8,485)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(9,567)	(10,471)
Cyfanswm yr asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol		13,989	18,590
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	11	(1,580)	(1,973)
Rhwymedigaethau prydles	12	(9,168)	(9,998)



Rhwymedigaethau pensiwn	3.1	(1,704)	(1,696)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(12,452)	(13,667)
Cyfanswm yr asedau namyn cyfanswm y rhwymedigaethau		1,537	4,923
